STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE
RHONDDA CYNON TAF
TREFTADAETH GADARN | DYFODOL SICR

CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG

2017 – 2020

Swyddog cyswllt: Esther Thomas
Cyfarwyddwr
Addysg a Dysgu Gydol Oes
01443 744002
esther.k.thomas@rhondda-cynon-taf.gov.uk

Cynnwys

Adran 1: Ein gweledigaeth a'n nod ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg 3

Adran 2: Sut rydyn ni'n bwriadu bodloni'r saith deilliant cenedlaethol 6

Deilliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg 6

Deilliant 2: Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. 17

Deilliant 3: Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg. 19

Deilliant 4: Mwy o fyfyrwyr 14-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith. 19

Deilliant 5: Mwy o fyfyrwyr sydd â sgiliau uwch yn y Gymraeg 27

Deilliant 6: Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) cyfrwng Cymraeg 35

Deilliant 7: Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). 37

Adran 1: Ein gweledigaeth a'n nod ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg

1. **Nodwch weledigaeth, nod ac amcanion eich awdurdod lleol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg dros y tair blynedd nesaf. Cyfeiriwch at adran 19 yn y canllawiau ar gyfer yr hyn sydd angen i chi ei gynnwys yn yr adran yma.**

Gweledigaeth:

Yn '*Y Ffordd Ymlaen: Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (2016-20 '),* mae'r Prif Weithredwr a'r Arweinydd wedi nodi'r uchelgais y bydd:

"Ysgolion Rhondda Cynon Taf ymhlith y goreuon yn y wlad, a bydd y plant i gyd yn cyflawni eu gorau glas."

Mae'r uchelgais yma'n berthnasol i bob ysgol yn y Fwrdeistref Sirol - erbyn 2020, bydd pob ysgol ymhlith y goreuon a bydd cyflawniad y plant yn parhau i ragori ar feincnodau Llywodraeth Cymru, gyda chynnydd disgyblion difreintiedig wedi'i gyflymu.

Yn unol ag adolygiad yr Athro Donaldson o'r cwricwlwm ac asesu, mae'r Cyngor yn credu yng ngwerth addysgol bod yn hyfedr yn y Saesneg a'r Gymraeg ac o'r farn y gall defnyddio sgiliau'r iaith Gymraeg yn ogystal â'r iaith Saesneg fod o fantais fawr i bobl ifainc wrth chwilio am waith. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod y Cyngor yn ceisio sicrhau bod y ddarpariaeth Gymraeg o'r safon uchaf ac yn ceisio cynnal y ffocws cyson ar godi safonau mewn dysgu sgiliau Cymraeg.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, sef cynnydd o tua 438,000 o bobl ar ffigurau Cyfrifiad 2011. Mae Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru yn nodi pa mor hanfodol mae'r system addysg wrth gyrraedd y targed yma.

Ar hyn o bryd, mae 27,779 o siaradwyr Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf, sef 12.3% o'r boblogaeth (Cyfrifiad 2011). Gan ganolbwyntio'n arbennig ar weithio tuag at y targed cenedlaethol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo a'i meithrin yn y Sir. Mae'r Cyngor wedi gosod targed yn hynny o beth, gan gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf 3.7% dros y pum mlynedd nesaf - bydd hyn yn codi'r ganran o 12.3% (Cyfrifiad 2011) i 15% (Cyfrifiad 2021). Yn seiliedig ar ffigurau poblogaeth 2011, mae hyn yn gynnydd o 6,054 o siaradwyr Cymraeg.

Amcanion:

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (y Cynllun) wedi cael ei gydlynu gan swyddogion Awdurdod Lleol ond cyfrannodd ystod o bartneriaid a rhanddeiliaid ato. Mae'r amcanion sydd yng Nghynllun 2017-2020 yn adlewyrchu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf ar gyfer y dyfodol tymor hir, gan ddefnyddio data a gwybodaeth gyd-destunol yr Awdurdod Lleol, y penaethiaid ysgol a phartneriaid sydd yng Ngrŵp Strategol y Cynllun a'r rhai sy'n mynychu'r 'Fforwm Iaith'. Fel y cyfryw, mae llawer o amcanion yn cael eu cynnwys yn Strategaeth Hybu'r Gymraeg ddrafft 2016-2021. Mae'r Cyngor â rhan i'w chwarae wrth hwyluso'r gwaith o gyflawni'r amcanion yma, ond does dim modd gwneud hynny heb gefnogaeth yr ysgolion, y sefydliadau partner ac aelodau o'r gymuned.

Mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar barhau i fuddsoddi mewn gwella adeiladau a chyfleusterau ysgolion, i sicrhau bod amgylchedd dysgu addas ar gyfer yr 21ain ganrif yn cael eu darparu ar gyfer disgyblion y Fwrdeistref Sirol; parhau i weithio mewn partneriaeth gyda'r holl ysgolion a Chonsortiwm Canolbarth y De i godi safonau, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd; a chau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion sydd o dan anfantais a'u cyfoedion. Bydd y Cyngor yn canolbwyntio ar wella safon yr arweinyddiaeth a'r addysgu drwy gymorth ysgol-i-ysgol effeithiol. Mae nifer o amcanion eraill yn y Cynllun y bydd angen i'r Cyngor gydweithio arnyn nhw, ond bydd angen i'r rhain gael eu harwain gan y Fenter Iaith, Coleg y Cymoedd, yr Urdd, Dechrau'n Deg a darparwyr blynyddoedd cynnar ac ati i fod yn llwyddiannus.

Mae'r amcanion sy'n ofynnol yn cael eu darparu o dan bob un o'r saith canlyniad yng Nghynllun 2017-2020, gan gyfeirio at ddata, targedau a chyd-destun pob mater cysylltiedig. Mae data atodol i'w gweld yn Atodiad I.

Rhan 'Fforwm Iaith' Rhondda Cynon Taf:
Mae Fforwm Iaith Rhondda Cynon Taf yn cael ei gynnal gan y Fenter Iaith. Mae'r Fforwm wedi bod yn rhan o baratoi'r Cynllun yma. Nod y Fforwm yw:

"Bod yn llais cydwybod a chyfiawnder ar gyfer yr iaith yn y Sir. Bydd ein llais cyffredin ac unedig yn ymateb i faterion ieithyddol sy'n codi ac yn atgoffa cyrff cyhoeddus a'r rheiny sy'n cael eu hariannu drwy arian cyhoeddus o'u hymrwymiad i'r iaith. Byddwn ni'n hysbysu, cynghori a hyrwyddo manteision dwyieithrwydd a'r Gymraeg gyda busnesau, unigolion a sefydliadau. Drwy ein gweithredoedd, byddwn ni'n ymdrechu i sicrhau tegwch a hawliau cyfartal i'r Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf. "

Mae rhan barhaus gan y Fforwm i'w chwarae wrth gydweithio â'r awdurdod lleol i herio a chefnogi datblygu cyfleoedd i feithrin galluoedd ieithyddol plant a phobl ifainc. Mae hyn yn cynnwys profiadau anffurfiol yn y cartref, o fewn addysg cyn-ysgol, lleoliadau cymunedol, gweithgareddau i bobl ifainc, sy'n hanfodol ochr yn ochr ag addysg ffurfiol i hyrwyddo'r Gymraeg.

Cymeradwyo Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg:
Ar ôl ymgynghori ag amrywiaeth o randdeiliaid, bydd Uwch Dîm Arwain Rhondda Cynon Taf yn trafod y Cynllun cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 15 Rhagfyr 2016.

2. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol o dan Adran 10 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 i hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhowch ddatganiad ynghylch hygyrchedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eich awdurdod lleol mewn perthynas â chludiant o'r cartref i'r ysgol. Nodwch unrhyw heriau a / neu feysydd o arfer da drwy gydweithio.

Dyletswydd statudol:
Mae'n ddyletswydd statudol ar yr Awdurdod i ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion i'w hysgolion addas agosaf os ydyn nhw'n byw pellter sydd y tu hwnt i "bellter cerdded" o'r ysgol honno. Mae'r term 'ysgol addas' yn cyfeirio at ysgol yn y dalgylch, boed hynny'n ysgol cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg a Saesneg, neu ysgol/dosbarth arbennig fel y bo'n briodol. Mae'r gyfraith yn diffinio "pellter cerdded" yn ddwy filltir i ddisgyblion o oedran addysg gynradd a thair milltir i bob disgybl o oedran addysg uwchradd.

Pwerau yn ôl disgresiwn:
Mae'r Cyngor wedi defnyddio'r disgresiwn sydd wedi'i roi iddo gan y Mesur, a chynnig darpariaeth fwy hael i ddisgyblion fel a ganlyn:

- Mae'r maen prawf ar gyfer pellter cerdded i ddisgyblion sy'n derbyn addysg gynradd orfodol yn eu hysgol addas agosaf wedi cael ei osod ar 1½ milltir, yn hytrach na 2 filltir fel

sy'n ofynnol gan y Mesur.

- Mae cludiant am ddim i'w hysgol addas agosaf, lle mae lleoedd ar gael, yn cael ei ddarparu i blant sy'n bodloni'r maen prawf 1½ milltir o ddechrau'r Cyfnod Sylfaen (dechrau'r tymor ysgol ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed), yn hytrach nag o ddechrau addysg orfodol (dechrau'r tymor ysgol ar ôl eu pen-blwydd yn 5 oed) fel sy'n ofynnol gan y Mesur.
- Mae'r maen prawf ar gyfer pellter cerdded i ddisgyblion sy'n derbyn addysg uwchradd orfodol yn eu hysgol addas agosaf wedi cael ei osod ar 2 filltir, yn hytrach na 3 milltir fel sy'n ofynnol gan y Mesur.
- Mae cludiant am ddim yn cael ei darparu ar gyfer myfyrwyr ôl-16 oed sy'n bodloni'r meini prawf 2 filltir am ddwy flynedd ar ôl diwedd addysg orfodol, yn hytrach na hyd ddiwedd addysg orfodol (y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin yn y flwyddyn ysgol y mae disgybl yn cael ei ben-blwydd yn 16 oed) fel sy'n ofynnol gan y Mesur. Mae'r ddarpariaeth yma'n berthnasol i ddisgyblion amser llawn sy'n mynychu'r ysgol neu'r coleg agosaf i'w cartrefi sy'n darparu'r cwrs cymeradwy maen nhw am ei astudio.
- Mae cludiant am ddim i'w hysgol addas agosaf yn cael ei darparu ar gyfer disgyblion (fel sydd wedi'i nodi uchod) yn unol â'u henwad crefyddol o ddewis.

Mae'r term 'ysgol addas' yn cyfeirio at ddalgylch ysgol cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, ysgol cyfrwng Cymraeg a Saesneg, ysgol brif ffrwd wirfoddol gymorthedig (yr Eglwysi) neu ysgol/dosbarth arbennig fel y bo'n briodol.

Darpariaeth Gymraeg:
Polisi cyfredol Awdurdod Lleol Rhondda Cynon Taf yw bod disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion cyfrwng Cymraeg / dwy iaith agosaf yn derbyn gwasanaeth cludiant am ddim yn unol â pholisi'r Awdurdod Lleol ynghylch pellter a llwybrau diogel fel sydd wedi'i nodi uchod).

Mae elfennau dewisol polisi'r Cyngor yn destun adolygiad ac efallai byddan nhw'n dod i ben, ond mae gwerthfawrogiad y gall newid i ddarpariaeth ddewisol gael effaith andwyol ar addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd unrhyw newidiadau arfaethedig yn destun ymgynghori â disgyblion a rhieni ac, os oes cytuno ar y newidiadau, bydd y newidiadau fel arfer yn dod i rym ar ddechrau blwyddyn ysgol ac yn bodloni gofynion rhifyn diweddaraf y ddogfen Teithio gan Ddysgwyr - Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Mehefin 2014.

Mae Rhondda Cynon Taf yn cydweithio â Chyngor Merthyr Tudful i roi lleoedd i ddisgyblion sy'n dymuno mynychu addysg cyfrwng Cymraeg.

Myfyrwyr ôl -16 oed:
Does dim gofyn statudol i ddarparu cludiant ar gyfer myfyrwyr ôl-16 oed. Serch hynny, polisi cyfredol Awdurdod Lleol Rhondda Cynon Taf yw bod myfyrwyr sy'n bodloni'r meini prawf o 2 filltir mewn perthynas â disgyblion ysgolion uwchradd o oedran statudol sy'n ymrestru ar gyrsiau cymeradwy yn yr ardal yn rhan o ddarpariaeth ar gyfer disgyblion/myfyrwyr 14–19 oed, yn gymwys ar gyfer cludiant am ddim.

Mae disgwyl i fyfyrwyr sy'n byw llai na 2 filltir o'r sefydliad addysg drefnu eu cludiant eu hunain. Gall cludiant gael ei darparu ar gyfer myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau addysg llawn amser, cymeradwy ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot a Choleg y Cymoedd (Ystrad Mynach).

Mae darpariaeth ddewisol helaeth y Cyngor felly yn arfer da ond hefyd yn heriol mewn cyfnod o gyni ariannol.

Llywodraethu ac atebolrwydd

Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cael ei gydlynu'n ganolog gan nifer o randdeiliaid, meysydd gwasanaeth a phartneriaid. Oherwydd hynny, gan mai nhw sy'n gyfrifol am ei weithredu ac am ei lwyddiant o ran bodloni ei nodau, mae Grŵp Cynllun Strategol wedi cael ei sefydlu yn arbennig ar gyfer sicrhau cynnydd.

Yn ogystal â hynny, yn 2014, sefydlodd y Cyngor Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg yn is-bwyllgor o Gabinet y Cyngor. Grŵp traws-bleidiau yw hwn sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r gymuned. Mae'r Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg yn goruchwylio datblygiadau strategol, yn trafod adroddiadau gan adrannau perthnasol ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg, yn cyflwyno argymhellion i Gabinet y Cyngor ac yn monitro datblygiadau Cyngor cyfan. Mae cyfrifoldeb arno i asesu Cynllun Gweithredu Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg, gan fonitro cynnydd y Cyngor wrth iddo geisio bodloni Safonau'r Gymraeg a'r amcanion sydd wedi'u nodi yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a Chynllun Corfforaethol 2016-2020.

Adran 2: Sut rydyn ni'n bwriadu bodloni'r saith deilliant cenedlaethol

Dangoswch sut y byddwch chi'n cyflawni Deilliannau 1-7 gan gyfeirio at adran 19 ar gyfer yr hyn sydd angen i chi ei gynnwys. Bydd disgwyl i chi gyflwyno data (mae rhestr o'r rhain ar gael yn atodiad 1) i gefnogi'ch targedau. Rhestrwch y rhain mewn atodiadau. Sicrhewch eich bod chi'n croesgyfeirio eich data i'r Deilliannau.

Deilliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Rhowch eich sefyllfa bresennol mewn perthynas â nifer y plant saith oed sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a'ch targedau ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Sefyllfa Bresennol	2016/17	2017/2018	2018/2019	2019/2020
Blwyddyn Academaidd 2015/2016: 19.18% (nifer=545; cyfanswm=2841)	*21%* *550*	*23%* *560*	*25%* *580*	*26%* *630*

Y rhesymeg ar gyfer y targedau:
Mae'r targedau ar gyfer 2017/18 a 2018/19 yn cael eu modelu ar niferoedd y disgyblion presennol mewn grwpiau oedran iau. Mae'r targedau ar gyfer 2018/19 a 2019/20 yn cael eu modelu ar y posibilrwydd bod y tair ysgol ddwy iaith yn dod yn ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac felly, bydd nifer y lleoedd yn cynyddu. Byddai 26% hefyd yn cwrdd â'r targedau cenedlaethol sy'n cael eu nodi yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (2010).

Rhestrwch eich pedwar prif amcan wrth gyflawni'r deilliant yma (rhestrwch eich amcanion ar ffurf pwyntiau bwled).

AMCANION:

1. *Cynllunio mewn modd strategol ar gyfer creu ac ymateb i'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg, drwy wneud y canlynol:*
   - *asesu, gwerthuso ac adolygu'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn rheolaidd a sicrhau bod prosesau cynllunio strategol amserol ac effeithiol ar waith sy'n ceisio creu*

galw am addysg cyfrwng Cymraeg.

- *rhoi ystyriaeth ddyledus i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg wrth asesu darpariaeth ysgolion ychwanegol efallai bydd gofyn amdanyn nhw o ganlyniad i fentrau megis y Rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif, neu pan fydd datblygiad tai newydd yn cael ei gynnig, er enghraifft.*
- *ymchwilio i (a cheisio gweithredu) newid statws ar gyfer yr ysgolion dwy iaith cyfredol i fod yn ysgolion cyfrwng Cymraeg, ac felly, gynyddu nifer y llefydd.*

2. *Cynyddu nifer y rhieni sy'n dewis darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plant, drwy wneud y canlynol:*
   - *Gweithio gyda rhaglen 'Cymraeg i Blant' y Mudiad Meithrin gyda'r nod o gynyddu cyfraddau trosglwyddo iaith rhwng rhieni a phlant;*
   - *lansio ymgyrch farchnata, gan adeiladu ar y llyfryn 'Bod yn Ddwyieithog', er mwyn hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg a manteision dwyieithrwydd;*
   - *darparu hyfforddiant blynyddol i staff rheng flaen, gan gynnwys Ymwelwyr Iechyd, Dechrau'n Deg, 'Mudiad Meithrin' ac eraill, ar fanteision bod yn ddwyieithog a rhoi negeseuon cadarnhaol i rieni.*

3. *Cynyddu cyfleoedd i rieni ddewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant, drwy wneud y canlynol:*
   - *cynyddu'r nifer o 'Cylchoedd Ti a Fi' a 'Chylchoedd Meithrin';*
   - *cynyddu nifer y lleoedd Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg;*
   - *treialu cyflwyno'r Gymraeg yn brif gyfrwng yr addysgu yn y Cyfnod Sylfaen mewn ychydig o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg dros y 5 mlynedd nesaf.*

4. *Cefnogi rhieni sy'n siarad Cymraeg a rhieni di-Gymraeg, drwy wneud y canlynol:*
   - *gweithio gyda staff Cymunedau yn Gyntaf a'r rheiny sy'n gweithio yn y gymuned i annog rhieni i weld manteision dwyieithrwydd a'u cefnogi gyda phryderon neu ymholiadau;*
   - *gweithio gydag ysgolion a 'Chanolfan Cymraeg i Oedolion' Prifysgol De Cymru i ddarparu cyrsiau Cymraeg byr, penodol i rieni ar ymadroddion cyffredin sy'n cael eu defnyddio mewn amrywiaeth o bynciau fel y gall rhieni gefnogi gwaith ysgol a gwaith cartref.*

Datganiad Ategol:

Disgrifiwch addysg cyfrwng Cymraeg yn yr awdurdod lleol - y nifer a'r math o ysgolion yn ogystal ag unrhyw enghreifftiau diweddar o fuddsoddiad cyfalaf. Os oes datblygiadau economaidd / tai newydd o fewn yr awdurdod, sut y byddwch chi'n sicrhau y bydd addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ystyriaeth lawn yn rhan o'r datblygiadau gan gynnwys unrhyw gytundebau 106 bydd modd eu defnyddio ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg;

Yn Rhondda Cynon Taf, mae addysg cyfrwng Cymraeg cyn-ysgol, a rhywfaint o'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar, yn cael eu darparu gan y Mudiad Meithrin, sydd ar hyn o bryd, yn cynnal 13 Cylch Ti a Fi (i rieni a phlant bach) a 25 Cylch Meithrin. Mae rhai o'r Cylchoedd Meithrin yn gweithio mewn partneriaeth â darpariaeth Dechrau'n Deg yr Awdurdod Lleol, gan ddarparu gofal plant cyfrwng Cymraeg a dwy iaith yng Nghwm Rhondda (Cylch Meithrin Ynys-hir a Wattstown); Cwm Cynon (Penrhiw-ceibr) a Thaf-elái (Rhydfelen, Glyn-coch, Pentre'r Eglwys, Llanhari). Mae Dechrau'n Deg yn cefnogi 96 o leoedd Cymraeg allan o gyfanswm o 716 o leoedd.

Mae'r ddarpariaeth bresennol o addysg cyfrwng Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf yn cynnwys:

- 3 Ysgol Uwchradd ar gyfer plant a phobl ifainc 11–19 oed: Ysgolion Uwchradd Cymraeg Rhyd-y-waun; Y Cymer a Garth Olwg;

- 1 Ysgol bob oed ar gyfer plant a phobl ifainc 3–19 oed: Ysgol Llanhari
- 13 Ysgol Gynradd: a
- 3 Ysgol Gynradd dwy iaith: Ysgolion Cynradd Dolau, Heol-y-celyn a Phenderyn.

Ar hyn o bryd, does dim ysgolion dwyieithog yn Rhondda Cynon Taf na ffederasiynau cyfrwng Cymraeg. Mae ffederasiwn wedi cael ei ystyried mewn dwy Ysgol Gynradd, sef YGG Pont Siôn Norton ac YGG Abercynon, ond fwrion ni ddim ymlaen oherwydd peth gwrthwynebiad gan un o'r cyrff llywodraethu. Er na fwrion ni ymlaen, bydd swyddogion o'r Gwasanaeth Addysg yn ymchwilio i hyn yn y dyfodol.

Mae buddsoddiad wedi bod yn y blynyddoedd diwethaf i gynyddu nifer y llefydd a/neu adeiladu adeiladau ysgol newydd. Ers 2003, mae'r Cyngor wedi cyflawni'r canlynol:

- Roedd YGG Aberdâr yn ysgol newydd a gafodd ei hadeiladu yn 2003 gyda 90 o lefydd ychwanegol (90 yn fwy na'r ysgol flaenorol);
- Roedd YGG Garth Olwg yn ysgol newydd a gafodd ei hadeiladu yn 2005, gyda 120 o leoedd ychwanegol (cynnydd o 50% yn nifer y llefydd). Cafodd 30 o lefydd eu hychwanegu yn 2011 o ganlyniad i ddefnyddio ystafell yn yr Ysgol Uwchradd;
- Roedd YGGG Llantrisant yn ysgol newydd a gafodd ei hadeiladu yn 2005, gyda 120 o leoedd ychwanegol (cynnydd o 50% yn nifer y llefydd).
- YGG Ynyswen - cafodd estyniad newydd ei adeiladu yn 2003 i ddarparu 150 o lefydd ychwanegol;
- Cafodd YGG Castellau fudd yn sgil adeiladu estyniad newydd yn 2011 oedd yn darparu 60 o lefydd ychwanegol;
- Cafodd YGG Abercynon fudd yn sgil agor adeilad Blynyddoedd Cynnar newydd yn 2003 oedd yn darparu 60 o lefydd ychwanegol;
- Cafodd YG Penderyn (ysgol dwy iaith) ei hailadeiladu yn gyfan gwbl yn 2007;
- Agorwyd cyfnod cynradd Ysgol Llanhari yn 2012, a fydd yn cynnwys 240 o lefydd ychwanegol pan fydd pob blwyddyn ysgol yn bresennol, gyda lle i ehangu ymhellach os bydd galw cydnabyddedig;
- Cafodd YG Dolau (ysgol dwy iaith) fudd yn sgil adeiladu estyniad yn 2009, gyda chyfanswm o 120 o lefydd ychwanegol;
- Roedd Ysgol Gyfun Garth Olwg yn ysgol newydd a gafodd ei hadeiladu yn 2006 (gyda'r un nifer o lefydd â'r hen YG Rhydfelen roedd hi'n ei disodli).

Mae swyddogion o'r Gwasanaeth Addysg yn gweithio'n agos gyda'r adran Rheoli Materion Datblygu y Cyngor er mwyn rhagweld a chynllunio ar gyfer unrhyw angen tebygol am leoedd ysgol ychwanegol mewn perthynas â datblygiadau tai newydd sy'n cael eu cynllunio. Mae hyn yn cynnwys paratoi achosion busnes angenrheidiol, lle bo tystiolaeth glir, i ofyn am ystyried arian Adran 106 i ddarparu lleoedd ysgol ychwanegol (sydd wedi'i ddisodli bellach gan yr Ardoll Seilwaith Cymunedol mewn rhai ardaloedd penodol o'r Fwrdeistref Sirol). Mae cydweithwyr addysg yn cyfrifo effaith ddisgwyliedig datblygiadau tai ar bob sector ysgol, gan gynnwys cyfrwng Cymraeg, ac yn gwneud yr addasiadau angenrheidiol o ran nifer y llefydd i ddiwallu anghenion ac ateb gofynion y datblygiad newydd.

Mae Cyngor RhCT yn cynnal asesiad llawn o'r gofynion addysg ar ôl cael gwybod bod caniatâd cynllunio wedi cael ei roi ar gyfer datblygiad newydd, a phan fydd y datblygwr wedi pennu dyddiad ar gyfer dechrau gwaith ar y safle. Mae'r asesiad yma'n cynnwys amcangyfrif nifer y plant fydd efallai'n byw ar y safle, a'u dewis iaith - cyfrwng Cymraeg 20% a chyfrwng Saesneg 80%. Dyma'r canrannau o ran dewis iaith ar draws ein holl ysgolion ar hyn o bryd, a'r ffigwr a ddaeth i'r amlwg yn yr Arolygon Digonolrwydd Iaith yn y blynyddoedd diwethaf. Er bod sawl datblygiad graddfa fawr ar y gweill yn ein Cynllun Datblygu Lleol, dydy'r gwaith adeiladu ddim

wedi dechrau hyd yma a does dim dyddiadau dechrau pendant gyda ni ar eu cyfer nhw. O ganlyniad i hynny, does dim modd cadarnhau'r ddarpariaeth addysg ychwanegol ar hyn o bryd.

Os oes unrhyw ysgolion cyfrwng Cymraeg o fewn trothwy capasiti o 10% neu ysgolion sy'n agosáu at eu capasiti, rhowch eich cynlluniau i sicrhau bod digon o lefydd ysgol;

Mae'r nifer o lefydd sydd ar gael ym mhob ysgol yn cael ei hadolygu'n flynyddol gan y Gwasanaeth Addysg gan ddefnyddio data'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD/PLASC), rhagolygon ysgol, ceisiadau derbyn blynyddol, gwybodaeth genedigaethau byw gan y Bwrdd Iechyd Prifysgol a'r Arolwg Dewis Iaith sy'n cael ei gynnal bob tair blynedd. Mae unrhyw gynnydd mewn poblogaethau disgyblion, yn enwedig o fewn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn cael ei fonitro'n ofalus ac, os yw'r cynnydd yn cael ei gynnal ac yn glir o fewn dalgylch yr ysgol benodol, mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i wneud y cynnydd angenrheidiol yn nifer y llefydd, drwy ba fodd bynnag sydd fwyaf priodol ac sydd fwyaf addas i'r ysgol benodol (e.e. estyniad, adlunio mewnol, addasiad i'r dalgylchoedd). Dyma'r ysgolion presennol sydd o fewn y trothwy 10% o ran capasiti: YGG Aberdâr, YGG Garth Olwg, YGG Llwyncelyn and YGG Pont Siôn Norton ac YG Rhydywaun. Mae dwy o'n hysgolion dwy iaith hefyd yn dod o fewn y categori yma, sef Ysgol Gynradd Dolau ac Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn, ond mae'r data yma ar gyfer yr ysgol gyfan, ac nid yr adran Gymraeg yn unig.

Sut bydd y weledigaeth ar gyfer cynyddu nifer y llefydd yn y sector cyfrwng Cymraeg yn cael ei gweithredu drwy eich rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif;

Mae'r rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ainGanrif yn cynnwys cynigion cytunedig sydd wedi'u cyhoeddi i gynyddu nifer y llefydd mewn dwy Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg yn rhan o broses ad-drefnu'r ysgolion yn ardaloedd Cwm Rhondda a Thonyrefail yn RhCT. Yn gyntaf, adleoli Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail i hen adeilad Ysgol Gynradd Tonyrefail, a fydd yn rhoi 100 o lefydd ychwanegol i addysg cyfrwng Cymraeg; a chyfuno Ysgol Babanod Llwyncelyn â safle Ysgol Gynradd Gymraeg Llwyncelyn gyfagos, a fydd yn ychwanegu 100 o lefydd yn yr ysgol yma. Byddwn ni'n rhoi ystyriaeth eto i gynyddu nifer y llefydd a gwella adeiladau'r ysgolion hynny sydd o dan Fand B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Rydyn ni'n aros am feini prawf cymwys ar gyfer hyn ac mae disgwyl ei lansio yn 2020.

Mae Cynllun Trefniadaeth Ysgolion RhCT wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru mewn fformat anhysbys oherwydd nad oes modd i Gyngor RhCT ryddhau enwau'r ysgolion hyd nes i Gabinet y Cyngor drafod yn drylwyr y cynigion y gallen ni'u cyflwyno. Bydd yr estyniad i'r ysgol gynradd sydd wedi'i nodi yn y Cynllun Trefniadaeth Ysgolion yn darparu 108 o lefydd ychwanegol ar gyfer plant o oedran addysg statudol, ynghyd â 15 o lefydd meithrin. Bydd un o'r estyniadau yn yr ysgolion uwchradd sy'n cael ei gynnig yn ychwanegu 162 o lefydd at yr ysgol honno. Dydy'r ail gynnig ddim yn estyniad fel y cyfryw, ond yn hytrach yn waith adnewyddu hen floc yn yr ysgol - does dim angen capasiti ychwanegol yn yr ysgol yma oherwydd bod yna 300 o lefydd dros ben ar hyn o bryd. Bydd yr ysgolion sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd yn disodli ysgolion sy'n bodoli eisoes, ond bydd digon o lefydd i ateb y galw cyfredol, a'r galw sy'n cael ei ragweld, yn nalgylchoedd yr ysgolion hynny. Bydd adolygiad llawn o'r dalgylchoedd yn cael ei gynnal hefyd er mwyn mynd i'r afael â'r llefydd sydd dros ben ar hyn o bryd - 550 yn ein hysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a 1140 yn ein hysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg.

Unwaith eto, dydy hi ddim yn bosibl rhoi manylion penodol o'r ysgolion sydd yn ein Cynllun Trefniadaeth Ysgolion ar hyn o bryd, ond fe all RhCT gadarnhau mai Rhydywaun yw un o'r cynlluniau sy'n cael eu cynnig ar gyfer cynyddu capasiti.

Oes cynlluniau gyda chi i gynnal asesiad o'r angen am ragor o ofal plant/addysg cyfrwng

Cymraeg? Ydych chi'n gweithio gydag awdurdodau lleol eraill i asesu'r angen? Pryd cynhalioch chi asesiad addysg cyfrwng Cymraeg ddiwethaf yn unol â Rheoliadau 2013? Sut mae ei ganfyddiadau yn cael eu hadlewyrchu yn eich Cynllun?

Mae'r Arolwg Dewis Iaith Addysg sy'n cael ei gynnal bob tair blynedd yn Rhondda Cynon Taf yn bodloni'r gofynion am Asesu'r Galw am Reoliadau Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013. Cafodd arolwg ei gynnal ddiwethaf yn 2015/16 i ganfod dewis iaith rhieni/gwarcheidwaid gyda'r data sampl a gafwyd gan y Bwrdd Iechyd Prifysgol, gan ddefnyddio data genedigaethau ar draws RhCT, ac yn yr achos yma, ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Medi 2012 a 31 Awst 2015. Bydd y plant yma'n rhan o'r garfan fydd yn dechrau mewn Dosbarthiadau Derbyn yn ystod y tair blwyddyn academaidd yma: 2017/18, 2018/19 a 2019/20. Cafodd arolwg ei anfon i 8,165 o gyfeiriadau i gyd - ymatebodd 1,444 ohonyn nhw (cyfradd ymateb o 18%). Mae'r tabl yma'n dangos y gyfradd ymateb i arolwg 2015/16 yn ôl ardal yn y Fwrdeistref Sirol:

Tabl 1 - Arolwg Dewis Iaith - Cyfradd ymateb yn ôl ardal (2015/16)

Ardal	Nifer a ddosbarthwyd	Nifer yr ymatebion	Cyfradd ymateb
Cwm Rhondda	2348	332	14%
Cwm Cynon	2228	342	15%
Taf-Elái	3589	770	21%
	8165	**1444**	**18%**

Pan ofynnwyd iddyn nhw beth oedd eu dewis iaith ar gyfer darpariaeth cyn-ysgol, dewisodd 53% o ymatebwyr y Saesneg, dewisodd 20% y Gymraeg a dewisodd 23% y ddwy iaith. Roedd 4% yn ansicr. Mewn ymateb i'r cwestiwn 'Beth fyddai'ch dewis iaith ar gyfer addysg oedran ysgol i'ch plentyn?', dewisodd 67% y Saesneg, dewisodd 27% y Gymraeg ac roedd 6% yn ansicr. Mae'r arolwg yn cael ei ddefnyddio gan yr Awdurdod Addysg Lleol i ddeall dewis iaith a rhesymau rhieni dros ddewis addysg cyfrwng Cymraeg neu Saesneg ar gyfer eu plant.

Cafodd yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant ei ddiweddaru yn 2016 i asesu'r angen am ofal plant ac mae sicrhau bod gan rieni fynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Mae'r camau gweithredu yn cynnwys y Mudiad Meithrin, y Fenter Iaith ac Adran Addysg Blynyddoedd Cynnar Cyngor RhCT yn cydweithio i ymchwilio i'r galw am ofal plant cofleidiol ymhlith yr ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'r Fenter Iaith hefyd wedi cael cefnogaeth i gofrestru eu clybiau ar ôl ysgol gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Mae'r Rhestr o Gyflenwyr Cymeradwy Dechrau'n Deg (a gafodd ei chyflwyno yn 2015) yn cael ei hyrwyddo'n ddiwyd i ddarparwyr gofal plant cyfrwng Cymraeg i helpu ateb y galw am ddarpariaeth Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg.

Mae rhieni sy'n cofrestru ar gyfer darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg yn cael dewis darpariaeth cyfrwng Saesneg, darpariaeth ddwyieithog neu ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Ar gyfer y rhieni hynny sy'n dewis gofal plant dwyieithog neu gyfrwng Cymraeg, mae carfan Dechrau'n Deg yn neilltuo llefydd ar eu cyfer nhw yn y lleoliad priodol agosaf. Yn ôl ymchwil a gynhaliodd y Fenter Iaith yn ddiweddar, mae'r cyflenwad o lefydd gofal plant cyfrwng Cymraeg trwy gynllun Dechrau'n Deg wedi bod yn ddigonol hyd yma.

Sut rydych chi'n cefnogi rhieni/gwarcheidwaid plant oed meithrin anstatudol mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg i drosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg statudol?
Sut rydych chi'n bwriadu darparu gwybodaeth ar gyfer rhieni ynglŷn â manteision addysg cyfrwng Cymraeg yn eich awdurdod lleol?

Drwy'r Fforwm, mae Addysg y Blynyddoedd Cynnar yng Nghyngor Rhondda Cynon Taf a'r Fenter Iaith wedi paratoi llyfryn 'Bod yn Ddwyieithog', sydd wedi'i ariannu gan Gronfa Glyndŵr a'i

gyhoeddi ym mis Mawrth 2016. Bwriad y llyfryn yma yw rhoi gwybodaeth ynglŷn â manteision bod yn ddwyieithog, olrhain llwybr i addysg cyfrwng Cymraeg ac ateb cwestiynau cyffredin ynghylch dewis addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r llyfryn yn cael ei ddosbarthu ar hyn o bryd trwy Ymwelwyr Iechyd, darpariaeth Dechrau'n Deg, nyrsys meithrin ac yn y gymuned mewn meddygfeydd, llyfrgelloedd, meddygfeydd deintyddol ac ysbytai.

Mae llyfryn 'Dechrau'r Ysgol' (2016-17) mwyaf diweddar RhCT ar gael i rieni hefyd. Mae'n rhoi ystod o gyngor ar ddewis ysgol, cludiant ysgol ac yn cynnwys rhestr o'r ysgolion.

Er mwyn sicrhau bod y dull gweithredu yn un cyson, bydd llyfryn Dechrau'r Ysgol y Cyngor yn cael ei adolygu yn 2017-2018 gyda'r nod o gynnwys y negeseuon mwyaf pwysig hynny sydd yn y llyfryn hyrwyddo 'Bod yn Ddwyieithog'. Yn y modd yma, bydd rhieni yn cael eu cyflwyno yn gadarnhaol i gyfleoedd pellach i wneud dewis gwybodus ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg. Yn rhan o'r adolygiad, bydd y Cyngor yn anelu at sicrhau y bydd unrhyw ddarpariaeth ar-lein sy'n ymwneud â hyn yn amlwg iawn.

Mae'r swyddog Cymraeg i Blant lleol yn cynnal sesiynau wythnosol dwyieithog ar dylino corff eich baban, ioga gyda'ch baban a rhigymau Cymraeg i rieni a phlant bach ar draws y Sir, gan weithio ochr yn ochr â bydwragedd ac ymwelwyr iechyd i sicrhau bod rhieni yn derbyn y negeseuon cadarnhaol cynnar yma yn ystod y cyfnod cyn-geni ac ar ôl geni, a'u bod nhw'n gwybod am y llwybr dwyieithrwydd sydd ar gael i'w plant.

Dylai'r ymgyrch adeiladu ar lwyddiant y llyfryn sydd wedi'i baratoi yn ddiweddar, sef 'Bod yn Ddwyieithog', a sicrhau dosbarthiad mwy eang o ddeunyddiau i'r gwasanaethau uchod ac eraill, gan gynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac asiantau tai i sicrhau bod teuluoedd sy'n symud i'r ardal yn gwybod am yr opsiynau sydd ar gael. Dylai'r 'pecyn' sy'n cael ei ddarparu roi gwybodaeth am gludiant o'r cartref i'r ysgol a ffurflenni cofrestru hefyd.

Sut rydych chi'n sicrhau bod cyfleoedd i blant a phobl ifainc i gael mynediad at ddarpariaeth trochi Gymraeg? Nodwch eich trefniadau ar gyfer hwyrddyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg;

Ar hyn o bryd, mae cyllid yn cael ei roi i ysgolion cyfrwng Cymraeg yn uniongyrchol i sicrhau bod unrhyw 'hwyrddyfodiaid' i addysg cyfrwng Cymraeg yn cael y cymorth a'r sgiliau angenrheidiol i ffynnu yn eu hysgolion. Ystyrir bod hyn yn gweithio'n effeithiol iawn, ond o ystyried bod llawer o Awdurdodau Addysg yn ystyried gwahanol fodelau o drochi, mae hi wedi cael ei hawgrymu y byddai sgwrs ar lefel Consortiwm yn fuddiol o ran deall pa gyfleoedd ar gyfer gweithio ar y cyd y byddai modd eu cael a'r modelau gorau i sicrhau bod plant a phobl ifainc yn cael eu cefnogi yn ddigonol.

Dylai'r ymgyrch marchnata sydd wedi'i chrybwyll uchod hefyd gynnwys gwybodaeth i rieni ar y trefniadau presennol ar gyfer darpariaeth trochi, er mwyn lleddfu unrhyw bryderon y bydd plant yn ei chael hi'n anodd symud o ddarpariaeth cyfrwng Saesneg i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Sut byddwch chi'n cefnogi neu arwain ysgolion yn eich sir i symud ar hyd y continwwm ieithyddol?

Mae'r Cyngor yn bwriadu ymchwilio i'r posibilrwydd o fewnblannu newid statws ar gyfer yr ysgolion dwy iaith presennol yn Rhondda Cynon Taf yn ystod y tair blynedd nesaf. Bydd ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i gynorthwyo ysgolion eraill i symud ar hyd y continwwm ieithyddol drwy'r rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif.

Mae targedau sy'n benodol i'r gwasanaeth yn cynnwys y canlynol:

Deilliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg			
Meini prawf llwyddiant	**Cerrig milltir / Camau cyfamser** a fydd yn helpu i gyflawni Delliant 1	**Dyddiad cyflawni** *(Mis/Blwyddyn)*	**Swyddog Atebol** *(Atebol am gymryd y cam)*
Bwrw targed o 21% (550) yn 2016/2017 a tharged o 23% (560) yn 2017/2018 (wedi'i seilio ar y nifer bresennol o ddisgyblion yn y grwpiau oedran iau)	Adeiladau ysgol newydd a gwell gyda'r lefelau capasiti priodol i ateb y galw disgwyliedig ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eu dalgylch	Erbyn Mawrth 2024 (diwedd Rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif , Band B)	Andrea Richards/Julie Hadley
	Ehangu adeiladau ysgol i ateb y galw disgwyliedig ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eu dalgylch	Erbyn Mawrth 2024 (diwedd Rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif , Band B)	Andrea Richards/Julie Hadley
	Adolygu dalgylchoedd rhai o'r ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, i unioni cyflenwad a galw yn well o ran llefydd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg (er mwyn defnyddio'r llefydd sydd dros ben ar hyn o bryd). Ym mis Ionawr 2017, roedd cyfanswm o 550 o lefydd dros ben yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg yn RhCT, a 1146 o lefydd dros ben yn yr ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg. Mae arweiniad Llywodraeth Cymru yn nodi bod rhaid i ni yn gyntaf ddefnyddio'r capasiti sbâr sy'n bodoli o fewn pellter rhesymol cyn creu darpariaeth newydd.	Erbyn Mawrth 2024, i gyfannu cynigion sy'n cael eu cynnwys o fewn Band B fel yr uchod.	Andrea Richards/Julie Hadley

	Ystyried troi ysgolion cynradd dwy iaith yn ysgolion cyfrwng Cymraeg.	Erbyn Mawrth 2024, i gyfannu cynigion sy'n cael eu cynnwys o fewn Band B fel yr uchod. I'w ystyried hefyd os yw ceisiadau cynllunio am ddatblygiadau mawr o dai yn dod i law.	Andrea Richards/Julie Hadley
	Adleoli darpariaeth cyn-oed ysgol (Cylchoedd Meithrin) i safleoedd ysgol pryd bynnag mae'r cyfle yn codi. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus yn Nhonyrefail lle adleolwyd Cylch Meithrin i YGG Tonyrefail o ganolfan gymuned. Bydd cyd-leoli darpariaeth o'r fath ar safleoedd ysgol yn cynorthwyo'r broses o drosglwyddo plant i ysgol statudol.	Bydd y delfryd yma'n cael ei ystyried yn rhan o gynigion Band B mewn perthynas ag adleoli cyfleusterau cymuned i safleoedd ysgol.	Andrea Richards/ Julie Hadley
	Paratoi achosion busnes priodol gyda thystiolaeth i ategu ceisiadau am arian i ddarparu capasiti ysgol ychwanegol gan ddatblygwyr tai lle bydd cyfleoedd yn codi.	Pan fydd ceisiadau cynllunio graddfa fwy yn cael eu cyflwyno (neu wrth i wybodaeth ddod i law ymlaen llaw gan yr adran Rheoli Datblygu).	Andrea Richards/Julie Hadley

	Sicrhau bod digon o lefydd yn ein hysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg i ateb y galw, er mwyn sicrhau pontio didrafferth o CA2 i CA3/4/5. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy ddefnyddio'r un cerrig milltir / camau cyfamser â'r rhai ar gyfer ysgolion cynradd fel sydd wedi'i amlinellu uchod.	Erbyn Mawrth 2024 (diwedd Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif – Band B) ac yn barhaus o ran llefydd ychwanegol a fydd eu hangen efallai yn sgîl datblygiadau tai (edrychwch ar yr uchod).	Andrea Richards/Julie Hadley

	• ***Darparu hyfforddiant blynyddol ar gyfer staff rheng flaen ynglŷn â'r manteision o fod yn ddwyieithog a rhoi negeseuon cadarnhaol i rieni.***
	• ***Defnyddio'r llyfryn 'Bod yn Ddwyieithog' i hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithrwydd***
	• Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg wrth gynnal gwasanaethau:
	  • **Dechrau'n Deg - Cyffredinol**
	  ▪ Rhoi copi o'r llyfryn 'Bod yn Ddwyieithog' ym mhob pecyn cofrestru genedigaeth Dechrau'n Deg
	  • **Gofal Plant:**
	  • Cynyddu'r defnydd o ymarferwyr gofal plant a hyrwyddo'r Gymraeg i raddau mwy helaeth ym mhob lleoliad gofal plant sydd wedi'i gomisiynu gan Dechrau'n Deg drwy ddarparu sesiynau hyfforddiant a phecynnau pwrpasol ar gyfer darparwyr unigol.
	  • Defnyddio adnodd monitro 'Asesu trwy Arsylwi' Gofal Plant Dechrau'n Deg i bennu gwaelodlin o'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae darparwyr yn sgorio 71% ar gyfartaledd ar y raddfa o ran defnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg – rydyn ni'n anelu at gynnydd o 10% bob blwyddyn.
	  • **Cymorth i Rieni a Theuluoedd**
	  • Cynnwys ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a sesiynau blasu mewn Gweithdai Rhianta
		Ebrill 2018
		
		Mawrth 2018
		
		Gorffennaf 2018
		
		Ionawr 2018
			Rheolwr Gwasanaeth, Blynyddoedd Cynnar a Chymorth i Deuluoedd
			
			Rheolwr Gofal Plant a Chwarae
			
			Rheolwr Gofal Plant a Chwarae
			
			Rheolwr Cymorth i Rieni a Theuluoedd

Risgiau i'w rheoli/hamlygu *Dyma'r pethau a fydd yn effeithio ar allu'r maes gwasanaeth / y sefydliad partner i gyflawni'r Deilliant uchod, neu a all effeithio arno.*		**Camau i liniaru'r risg (os nad yw wedi'i gynnwys uchod)** *Nodwch: Rhaid bod gyda chi gamau i reoli'r risgiau sydd wedi'u nodi. Gall y rhain gael eu croesgyfeirio i'r camau / cerrig milltir uchod.*
I	Os na fydd Llywodraeth Cymru yn cytuno ar ein cynigion Band B, neu'n cytuno arnyn nhw'n rhannol yn unig	Ystyried ffyrdd amgen o gyllido'r gwariant cyfalaf sy'n ofynnol
2	Os yw'r cynigion yn cael eu gwrthwynebu pan fydd yr ymgynghoriad yn dechrau	Sicrhau bod yr ymgynghoriad yn drwyadl, agored ac yn gwbl dryloyw. Sicrhau bod yr ymgyngoreion i gyd yn cael manylion llawn o'r cynigion a'n bod ni'n rhoi'r holl wybodaeth ategol a all fod yn ofynnol ac ateb pob cwestiwn mewn modd amserol.
3	Os yw unrhyw rai o'n cynigion yn cael eu herio yn gyfreithiol gan adolygiad barnwrol	Sicrhau bod yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, a gwirio ac adolygu yn gyson i sicrhau bod y gyfraith yn cael ei dilyn ar bob adeg.
4	Os bydd hi'n anodd cael cydsyniad y datblygwyr tai parthed cyfraniadau	Sicrhau bod yr wybodaeth a'r achos busnes yn drwyadl a chynnwys data a manylion perthnasol i ategu'r cais. Cadw mewn cysylltiad agos â chydweithwyr yn yr Adran Rheoli a Datblygu a'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn hyn o beth.
5	Os na fydd digon o staff sy'n siarad Cymraeg i ateb y galw, mae'n bosibl bydd oedi tra bydd y gwasanaethau yn ceisio dod o hyd i ddarparwyr amgen neu gyfieithwyr ar y pryd i gyfieithu wrth gyflawni gwasanaethau	Cynorthwyo pob aelod o staff sydd ag ystod o sgiliau iaith Gymraeg i fod â'r hyder i ddefnyddio'r iaith wrth gynnal eu gwasanaethau. Yn ogystal â hynny, cynorthwyo staff i fanteisio ar grwpiau dysgu Cymraeg a grwpiau canolradd
6	Os na fydd digon o ddarparwyr gofal plant cyfrwng Cymraeg yn cyflwyno cais i ddarparu gofal plant Dechrau'n Deg, fydd y targed o ran nifer y llefydd gofal plant Dechrau'n Deg ddim yn cael ei fwrw	Sicrhau bod Menter Iaith a'r Mudiad Meithrin yn cynorthwyo lleoliadau gofal plant i gyflwyno cais am ofal plant Dechrau'n Deg

Cymorth gofynnol – *Nodwch y cymorth sydd ei angen arnoch chi gan unrhyw wasanaeth arall, e.e. Corfforaethol neu Bartneriaid*

Maes Gwasanaeth / Sefydliad Partner	***Cymorth Gofynnol a'r Swyddog Cyfrifol**
Llywodraeth Cymru	Ymateb amserol a phriodol i geisiadau am gyllid o dan Ysgolion yr 21ain Ganrif, Band B – Jo Larner
Eiddo'r Cyngor	Cymorth i gyfrifo costau gwaith cyfalaf sydd wedi'i amlinellu ym Mand B. Rheoli rhaglenni adeiladu.
Rheoli Datblygu / Gwasanaethau Cyfreithiol	Rhoi gwybod ymlaen llaw am ddatblygiadau tai newydd a chynnal ymgynghoriad cyn y gwaith cynllunio. Cynorthwyo i baratoi achosion busnes priodol ar gyfer lles cynllunio neu gyllid Ardoll Seilwaith Cymunedol. Cyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn rheolaidd.
Gwasanaeth Cyfieithu	Gallu i roi gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd i gynnal gwasanaethau ar gyfer plant a theuluoedd os na fydd staff ar gael sy'n siarad Cymraeg

Deilliant 2: Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Rhowch eich sefyllfa bresennol a'ch targedau ar gyfer y tair blynedd nesaf mewn perthynas â nifer y disgyblion blwyddyn naw sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg (Iaith Gyntaf)

Sefyllfa Bresennol	2016/2017	2017/2018	2018/2019	2019/2020
Blwyddyn Academaidd 2015/2016: 17.69% (nifer=442)	*450*	*460*	*478*	*520*

Y rhesymeg ar gyfer y targedau:
Mae'n cael ei ragweld y bydd yr amcanion yn Neilliant 1 yn cymryd peth amser i gael effaith ar ddisgyblion blwyddyn naw, felly mae'r targed ar gyfer 2019/20 yn seiliedig ar nifer y disgyblion sydd yn y Cyfnod Sylfaen, blwyddyn 6 a blwyddyn 7 ar hyn o bryd. Y targed cenedlaethol sy'n cael ei gynnwys yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (2010) yw 23% erbyn 2020.

Rhestrwch eich pedwar prif amcan wrth gyflawni'r deilliant yma (rhestrwch eich amcanion ar ffurf pwyntiau bwled).

AMCANION:

1. *Ceisio cynyddu'r dilyniant iaith o'r Cylchoedd Meithrin a'r lleoliadau Dechrau'n Deg i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg i 90% erbyn 2021:*
    - *drwy'r amcanion a gafodd eu nodi yn Neilliant 1;*
    - *drwy gynorthwyo'r Cylchoedd Meithrin, y darparwyr gofal plant a'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg i weithio'n fwy agos gyda'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg agosaf.*

2. *Treialu cyflwyno'r Gymraeg yn brif gyfrwng yr addysgu yn y Cyfnod Sylfaen mewn ychydig o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg dros y 5 mlynedd nesaf (fel sydd wedi'i nodi yn Neilliant 1).*

3. *Sicrhau bod yr ychydig ddisgyblion sydd ddim yn trosglwyddo o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg i ysgolion uwchradd yn parhau i astudio'r Gymraeg yn iaith gyntaf, trwy gydweithio â'r ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg i alluogi darpariaeth.*

4. *Archwilio i gyfleoedd ar gyfer gweithio ar y cyd a modelau o gynlluniau trochi gyda'r Consortia, gan geisio sefydlu trefniadau cydweithrediadol erbyn 2018.*

Datganiad Ategol:
Nod y deilliant yma yw cynyddu nifer y disgyblion sy'n trosglwyddo;
- **o addysg feithrin nas cynhelir wedi'i hariannu i addysg feithrin wedi'i hariannu;**
- **o'r cyfnod sylfaen i'r ail gyfnod allweddol;**
- **o'r ail gyfnod allweddol i'r trydydd cyfnod allweddol: ac**
- **o'r trydydd cyfnod allweddol i'r pedwerydd cyfnod allweddol.**

Mae'r camau yma'n hanfodol, yn arbennig o CA2 i CA3, oherwydd yma rydyn ni'n gweld gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg ac sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg (iaith gyntaf), mewn rhai awdurdodau lleol. Mae angen i ni

wybod lle mae hyn yn digwydd, fel y gallwn ni weld y duedd yn sirol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Bydd angen rhoi sylw i'r camau eraill yn y broses trosglwyddo hefyd fel y gallwn ni weld a oes tuedd wrth drosglwyddo o un cyfnod allweddol i'r llall.

Os oes gwahaniaeth sylweddol rhwng y plant sydd wedi'u hasesu yn y Gymraeg yn iaith gyntaf ym mlwyddyn 6 ac yna ym mlwyddyn 9, nodwch yn fras:

- **y rhesymau tebygol;**
- **eich strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â'r diffyg parhad;**
- **pa waith sy'n cael ei wneud gan ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg i hyrwyddo eu cynnig i ysgolion cynradd;**
- **wrth drosglwyddo o CA2 i CA3, sut mae'ch awdurdod yn sicrhau bod y disgyblion a gafodd eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn gyfan gwbl neu yn rhannol, yn yr ysgol gynradd, yn cael eu trosglwyddo i'r ffrwd cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion uwchradd dwyieithog (fel sy'n cael eu diffinio yn "Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg");**
- **a'ch cynlluniau ar gyfer cynyddu cyfran yr addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion unigol a/neu gyfnodau penodol o addysg mewn ysgol.**

Wrth adolygu data a deall cyd-destun dilyniant iaith, dydy nifer y disgyblion sy'n trosglwyddo i'r cyfnod allweddol nesaf ddim i weld yn broblem sylweddol yn Rhondda Cynon Taf, ar ôl i blant a phobl ifainc ddechrau'r Cyfnod Sylfaen a'r ysgol gynradd. Er enghraifft, mae'r cyfraddau trosglwyddo yn uchel yn Rhondda Cynon Taf o ran disgyblion sy'n symud o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2 (97.73%); o Gyfnod Allweddol 2 i 3 (97.91%) ac o Gyfnod Allweddol 3 i 4 (99.60%).

Er enghraifft, cafodd 439 o ddisgyblion eu hasesu mewn sgiliau Cymraeg Iaith Gyntaf yn 2012/13 ym mlwyddyn 6 (18.32% o gyfanswm y disgyblion). Mae modd dilyn yr un garfan i flwyddyn 9 yn 2015/16, pan gafodd 442 o ddisgyblion eu hasesu mewn sgiliau Cymraeg Iaith Gyntaf (17.69% o gyfanswm y disgyblion) - gweler Atodiad 1 am ddata manwl.

Bydd angen i'r data sy'n ymwneud â phlant sy'n symud o leoliadau meithrin i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg wella os yw'r nifer o blant mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn gyffredinol yn mynd i gynyddu. Y canran cyfartalog o'r disgyblion aeth o'r Cylch Meithrin (Mudiad Meithrin) i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yw 59.93% yn 2015/16. Mae hyn yn amrywio o 100% o'r disgyblion mewn ardaloedd fel Pontypridd i 0% yng Nglyn-coch. Mae sawl rheswm dros hyn, ond mewn rhai achosion, mae'r ysgol cyfrwng Saesneg, yn syml, yn nes at ddarpariaeth y 'Cylch'. Yn yr un modd, mae nifer y plant sy'n symud o Ddarparwyr Addysg Cofrestredig i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn fach, ac rydyn ni'n cynghori archwilio i'r rhesymau dros hynny.

Yn ôl ymchwil gan y Fenter Iaith, mae penderfyniadau rhieni ynghylch defnyddio gofal plant yn cael eu llywio gan gyfleustra, lleoliad ac yn benodol, agosrwydd at eu cartrefi, yn hytrach na chan ddewis iaith. Mae hyn yn pwysleisio bod angen sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei gwasgaru yn ddaearyddol ac yn cymryd i ystyriaeth data ardaloedd lleol ynglŷn â siaradwyr Cymraeg, os yw hi'n mynd i fod yn bosibl hyrwyddo mynediad ehangach i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Mae canolfannau Dechrau'n Deg yn wynebu her wrth gynnal a datblygu darpariaeth Gymraeg ymhellach. Mae argaeledd staff sydd â chymwysterau priodol sy'n siarad Cymraeg yn broblem barhaus a chafodd ei nodi bod nifer o ganolfannau yn wynebu anawsterau wrth ddenu a chadw staff i allu cyflwyno sesiynau dwyieithog/Cymraeg. Mae hyn yn tynnu sylw at yr angen i ddatblygu sgiliau pobl ifainc a'u dewisiadau gyrfa, denu staff sy'n siarad Cymraeg ac i weithio

gyda'r Cylchoedd i ehangu'u darpariaeth mewn ardaloedd daearyddol eraill, mewn partneriaeth ag ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg.

Yn fwy cyffredinol, mae nifer o fentrau da sy'n digwydd yn Rhondda Cynon Taf sy'n ymwneud â chynorthwyo disgyblion i symud ymlaen o addysg gynradd i addysg uwchradd. Mae hyn yn cynnwys disgyblion blwyddyn 6 yn treulio amser yn eu hysgol uwchradd newydd cyn dechrau tymor y flwyddyn; athrawon o'r ysgolion uwchradd yn dod i'r ysgolion cynradd i ddarparu sesiynau gweithgaredd difyr a magu perthynas gyda'r disgyblion newydd a phrosiectau yn y gymuned, drwy'r Fenter Iaith a'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid, sy'n annog disgyblion i ystyried eu dyfodol yn unol â chyfleoedd gyrfa yn y Gymraeg.

Ar hyn o bryd, mae Urdd Gobaith Cymru (yr Urdd) yn cynorthwyo ysgolion cynradd i drefnu teithiau preswyl i Langrannog yn eu clystyrau ysgol uwchradd i hwyluso'r cyfnod pontio i'r ysgol uwchradd. Mae'r Urdd wedi awgrymu y gall proses debyg gael ei threfnu gan ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg, a all annog sgiliau Cymraeg gwell a darparu'r opsiwn i ddisgyblion cyfrwng Saesneg drosglwyddo i ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg.

Mae amcanion y deilliant yma'n cysylltu â phwysigrwydd trosglwyddo iaith yn y cartref ac amcanion cysylltiedig yn Neilliant 5, yn ogystal â chamau yn Strategaeth Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg 2016-2021.

Deilliant 3: Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Deilliant 4: Mwy o fyfyrwyr 14-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith.

Nodwch eich sefyllfa bresennol a'ch targedau sy'n ymwneud â'r canran o ddysgwyr sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg (iaith gyntaf) ac ar gyfer o leiaf dau gymhwyster Lefel 1 neu Lefel 2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg.

Sefyllfa Bresennol	**2016/2017**	**2017/2018**	**2018/2019**	**2019/2020**
Blwyddyn academaidd 2015/2016 91.49% (nifer=441; cyfanswm=482)	*95%*	*99%*	*100%*	*100%*

Ffynhonnell y data: Cyflenwad Data Dros Dro (2016) ar gyfer CA4 – Consortiwm Canolbarth y De

Nodwch eich sefyllfa bresennol a'ch targedau sy'n ymwneud â'r canran o ddysgwyr sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg (iaith gyntaf) ac ar gyfer o leiaf pum cymhwyster Lefel 1 neu Lefel 2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg.

Sefyllfa Bresennol	**2016/17**	**2017/2018**	**2018/2019**	**2019/2020**
Blwyddyn academaidd 2015/2016	*69%*	*73%*	*73.5%*	*74%*

65.77% (nifer=317; cyfanswm=482)				

Ffynhonnell y data: Cyflenwad Data Dros Dro (2016) ar gyfer CA4 – Consortiwm Canolbarth y De

Ystyriaethau i'w nodi yn y 2 fater uchod (3a a 3b):

1. **Parthed y rheiny sydd wedi'u cofrestru ar gyfer CIG - dyma nifer y disgyblion sydd wedi'u cofrestru ar gyfer cymhwyster Cymraeg yn Iaith Gyntaf – côd pwnc LEAP 5510.**
2. **Dangosydd ar gyfer Cymru sydd wedi'u darparu yn rhan o'r Cyflenwad Data sy'n cael eu defnyddio i nodi cymwysterau cyfrwng Cymraeg.**
3. **Yn unol â chyfarwyddyd ynghylch Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, mae'r Gymraeg (Côd 5510) a Llenyddiaeth Gymraeg (côd 5530) wedi'u hepgor o'r enrhifiadau yma.**

Y rhesymeg ar gyfer y targedau:

Y targedau cenedlaethol ar gyfer Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (2010) yw 88% ar gyfer y canran o ddisgyblion sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg (iaith gyntaf) ac ar gyfer o leiaf dau gymhwyster Lefel 1 neu Lefel 2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg a 68% ar gyfer y canran o ddisgyblion sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TGAU (iaith gyntaf) ac ar gyfer o leiaf pum cymhwyster Lefel 1 neu Lefel 2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rhestrwch eich pedwar prif amcan wrth gyflawni'r deilliant yma (rhestrwch eich amcanion ar ffurf pwyntiau bwled).

AMCANION - DEILLIANNAU 3 a 4:

Mae llawer o'r amcanion ar gyfer bwrw targedau o fewn y deilliannau yma yn dibynnu ar gyflawni amcanion yn Neilliannau 1 a 2 i gynyddu nifer y disgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg a chadw'r disgyblion drwy gydol y cyfnodau allweddol. Mae'r rhain hefyd yn cysylltu'n agos ag amcanion Deilliant 5. Yn ogystal â hynny:

1. *Gweithio gyda Choleg y Cymoedd a darparwyr Addysg Bellach eraill yng nghyffiniau Rhondda Cynon Taf i gynyddu'r cynnig cyfrwng Cymraeg ar gyfer pobl ifainc mewn addysg bellach, drwy wneud y canlynol:*
    - *Adeiladu ar gysylltiadau rhwng ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg a Choleg y Cymoedd, gan archwilio i'r posibiliadau o gydweithio ar y ddarpariaeth gan gynnwys cyrsiau TGAU.*
    - *Cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng Ngholeg y Cymoedd trwy ddatblygu unedau 'Iaith ar Waith' ar draws meysydd dysgu eraill.*
    - *Datblygu darpariaeth ddwyieithog mewn rhai cyrsiau prif ffrwd o fewn Coleg y Cymoedd e.e. Busnes, Gofal Plant, Iechyd a Gofal Cymdeithasol.*

2. *Datblygu partneriaethau gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (sy'n cynrychioli colegau yng Nghymru) i greu llwybr i ddisgyblion symud ymlaen i astudiaethau Addysg Bellach.*

3. *Cynyddu ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd a'r manteision sydd ar gael i bobl ifainc ddwyieithog drwy wneud y canlynol:*
    - *Ymchwilio i ddarparu a chreu gwybodaeth ar gyfer pobl ifainc yn nodi manteision ac opsiynau addysg bellach a chyflogaeth cyfrwng Cymraeg.*
    - *Creu gweithgareddau a sesiynau rhoi gwybodaeth a'u rhoi ar waith yn fodd pwrpasol i godi ymwybyddiaeth iaith ymhlith pobl ifainc.*
    - *Darparu cyfleoedd cymdeithasol i fyfyrwyr coleg a chweched dosbarth i gyfarfod a defnyddio'r Gymraeg.*

Datganiad Ategol:

Dylid rhoi ystyriaeth benodol i unrhyw ysgol i weithio ysgol yn ogystal â chydweithredu rhanbarthol. Dylai'ch gwaith partneriaeth rhwng colegau Addysg Bellach a darparwyr dysgu seiliedig ar waith gael ei nodi'n fanwl yma hefyd.

Cofiwch gynnwys y canlynol yn eich ymateb:

- **Sut rydych chi'n sicrhau bod mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio pynciau TGAU drwy gyfrwng y Gymraeg.**
- **Sut byddwch chi'n cynyddu canran y disgyblion sydd ym mlwyddyn olaf CA3;**
- **Sut rydych chi'n mynd i sicrhau cynnydd yn argaeledd cyrsiau TGAU cyfrwng Cymraeg ar draws eich awdurdod lleol;**

Yn RhCT, mae pedair ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ar draws y sir i hwyluso mynediad - tair Ysgol Uwchradd i blant a phobl ifainc 11-19 oed: Ysgolion Uwchradd Cymraeg Rhyd-y-waun; Y Cymer a Garth Olwg; ac un ysgol pob oed i blant a phobl ifainc 3-19 oed: Ysgol Llanhari. Ar hyn o bryd, mae disgyblion ym Merthyr Tudful hefyd yn cael mynediad i Ysgol Uwchradd Gymraeg Rhyd-y-waun. Mae pob disgybl sy'n mynychu'r ysgolion yma yn astudio eu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg. O ran Ysgol Gyfun Treorci, mae nifer y disgyblion yn y ffrwd Gymraeg wedi bod yn gostwng bob blwyddyn. Does dim darpariaeth Gymraeg eleni ac mae hynny yn fwy na thebyg o ganlyniad i'r safonau sy'n gwella yn Ysgol Cwm Rhondda.

Ar hyn o bryd, mae 19% o'r garfan gyfan o ddisgyblion 14-16 oed yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, sef yr un canran â 2010. Bu rhywfaint o amrywiad yn y canran – gostyngodd y canran yn 2013 i 17% (sef tua 120 o ddisgyblion) ond bu adferiad cyson ers hynny. Y rheswm dros y gostyngiad yma oedd agor yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, sef Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd, a ddenodd disgyblion a fyddai gynt wedi mynd i Ysgol Llanhari.

Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg ôl-16 oed wedi wynebu mwy o gystadleuaeth ers agor cyfleuster addysg bellach sydd wedi denu nifer o fyfyrwyr. Mae'r diffyg cyfle i astudio rhai pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn addysg uwch wedi arwain at fyfyrwyr yn trosglwyddo i addysg cyfrwng Saesneg yn gynt, yn 16 oed.

Mae gwelliant wedi bod o ran ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd i rannu arfer da a rhannu adnoddau fel y gall arbedion effeithlonrwydd gael eu gwneud, ond mae rhagor i'w wneud o hyd. Mae'r gwaith sydd wedi'i wneud rhwng YG Llanhari (yn RhCT) ac YG Llangynwyd (ym Mhen-y-bont ar Ogwr) o bwys arbennig achos fe all y ddwy ysgol fod wedi cystadlu yn erbyn ei gilydd.

Nodwch sut byddwch chi'n cynnal a chynyddu'r ystod o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion 14-19 oed;

Mae pob ysgol yn bodloni Mesur Dysgu a Sgiliau (2009) ac mae rhywfaint o rannu cyrsiau yng Nghyfnod Allweddol 4. Mae gweithgaredd sylweddol fwy yn digwydd yng Nghyfnod Allweddol 5 o ran rhannu cyrsiau sy'n cynnwys y colegau ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful a Choleg y Cymoedd ar gyfer cyrsiau galwedigaethol megis adeiladu, a phartneriaid dysgu seiliedig ar waith a darparwyr allanol sy'n darparu cyrsiau yn y Gyfraith, Dawns a CACHE.

Mae Coleg y Cymoedd yn ceisio fwyfwy i weithio ar y cyd ag ysgolion yn Rhondda Cynon Taf i gynyddu argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr sydd mewn addysg bellach. Mae hyn yn cael ei weld yn gam cadarnhaol iawn a dylid adeiladau arno drwy weithio gyda darparwyr Addysg Bellach eraill yn rhanbarthol.

Mae targedau Coleg y Cymoedd ar gyfer 2017-2018 yn cynnwys:

- Cynnig dosbarth cyfrwng Cymraeg i ailsefyll arholiad TGAU Mathemateg (yn amodol ar nifer hyfyw o fyfyrwyr)
- Cynllunio a pharatoi 2 uned ddwyieithog yn rhan o gyrsiau prif ffrwd yr Ysgol Fusnes, fel bydd modd cynnig dewis i'n myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg.
- Lansio cynllun arloesol ar y cyd ag ysgolion cyfrwng Cymraeg Rhondda Cynon Taf a Chaerffili mewn partneriaeth ar draws y sectorau a'r ffiniau i gynnig cyrsiau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant (Lefelau 2 a 3) drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2018-19. Mae'r bartneriaeth wedi cyflwyno cais am gyllid prosiect gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol er mwyn cefnogi elfennau o'r gwaith yma. Dyma'r camau gweithredu a'r dyddiadau perthnasol:

Amserlen y prosiect

Dechrau : Medi 2017
Cam 1 – Athrawon o'r Coleg sydd ag arbenigedd yn y pynciau dan sylw i nodi unedau posibl a all gael eu cynnig (neu na all gael eu cynnig) yn rhan o'r cyrsiau yma erbyn canol mis Medi
Cam 2 – Cyfarfod cynnydd i drafod y canfyddiadau ar ddiwedd mis Medi / dechrau mis Hydref
Cam 3 – Cytuno ar amserlen ar gyfer cynnal cyfarfodydd Cymunedau Dysgu Proffesiynol bob hanner tymor i drafod datblygu adnoddau (gyda'r cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal cyn diwedd mis Hydref)
Cam 4 – Ymgyrch Marchnata – yn y Coleg, yr ysgolion a'r cymunedau lleol er mwyn rhoi gwybod i fyfyrwyr am y ddarpariaeth newydd a fydd ar gael o fis Medi 2018 (Ionawr/Chwefror)
Cam 5 – Cyfarfod i drafod staff sydd ar gael ar hyn o bryd neu benodi staff newydd, os oes unrhyw ddiffygion yn cael eu nodi ym mis Mawrth
Cam 6 – Cyfarfod i drafod aelodaeth o'r Cylch Ansawdd i sicrhau bod digon o aseswyr a dilyswyr mewnol priodol ar gael (Mawrth)
Cam 7 – Trafod cyfres o sesiynau Gloywi Iaith a chytuno ar eu cynnwys (Ebrill)
Cam 8 - Cynnal cyfarfodydd i sicrhau bod y staff a'r adnoddau yn barod ar gyfer dechrau'r cyrsiau ym mis Medi a bod cyfleoedd i gynnig lleoliadau gwaith i'r myfyrwyr (drwy gyfrwng y Gymraeg os yw hynny'n bosibl) Mai/Mehefin
Cam 9 – Cytuno ar amserlen ar gyfer monitro yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau gwelliant parhaus (Mehefin)
Cam 10 – Dechrau darparu cwrs Iechyd a Gofal Cymdeithasol a chwrs Gofal Plant yn y coleg (Medi 2018)
Cam 11 – Cyhoeddi amserlen ar gyfer cwblhau gwaith/asesiadau (Medi 2018)
Cam 12 - Gwerthuso'r prosiect drwy edrych ar y data sy'n ymwneud â chynnydd y myfyrwyr ynghyd ag adborth gan y myfyrwyr eu hunain, er mwyn sicrhau gwelliant (Awst 2019)

Mae 18.5% o holl boblogaeth Blwyddyn 13 yn astudio dau bwnc neu ragor drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar hyn o bryd, does dim darpariaeth ddwyieithog ôl-16 oed yn ein hysgolion.

Cafodd 2.6% o ddisgyblion a gafodd eu cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf eu cofrestru ar gyfer Lefel A Cymraeg iaith gyntaf yn 2016.

Cafodd 4.2% o'r disgyblion a gafodd eu cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg ail iaith (cwrs llawn) eu cofrestru ar gyfer Lefel A Cymraeg ail iaith yn 2016.

Mae'r Cyngor yn mynd ati'n rhagweithiol i gynorthwyo myfyrwyr i fynychu colegau addysg bellach amgen lle mae cwrs penodol maen nhw'n dymuno'i astudio. Mae'r ddarpariaeth yma'n cael ei monitro drwy'r consortiwm a Gyrfa Cymru; ac mae rhagor o waith i'w wneud yn rhanbarthol gyda darparwyr Addysg Bellach er mwyn annog darpariaeth iaith Gymraeg i fod ar

gael ar gyfer y cymwysterau yma. Bydd partneriaethau gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn parhau â'r gwaith yma gan helpu i greu llwybr clir i fyfyrwyr sy'n ceisio parhau a'u hastudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Urdd hefyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i greu prosiect gyda phobl ifainc sydd dros 14 oed yn Rhondda Cynon Taf, sydd â'r nod o annog astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel gradd.

Sut y byddwch yn defnyddio canlyniadau data ysgolion i wella darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae Rhondda Cynon Taf yn bartner gweithgar yn y rhwydwaith cyfrwng Cymraeg ac yn defnyddio'r consortiwm yn banel i wella darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Mae ysgolion, colegau a darparwyr trydydd parti yn gysylltiedig gan ddefnyddio'r Awdurdod yn sianel. Mae'r rhwydwaith yma, yn ei dro, yn gysylltiedig yn uniongyrchol drwy aelodaeth i'r fforwm rhanbarthol ac felly gall hysbysu a chael ei hysbysu'n uniongyrchol. Mae swyddogion o'r Awdurdod yn sicrhau sianeli cyfathrebu da rhwng partneriaid ac yn annog arfer da a chydymffurfiaeth â pholisi lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Bydd Cyngor RhCT yn parhau i adeiladu ar ddarpariaeth bresennol gan ymgynghori â disgyblion er mwyn sicrhau bod cwricwla yn cael eu cynnig a fydd yn bodloni eu gofynion. Bydd y ddarpariaeth bresennol yn cael ei hadolygu ac ansawdd yn cael ei sicrhau. Bydd sylw arbennig yn cael ei roi i effaith y newidiadau yn Llanhari ac effaith newidiadau darpariaeth ym Merthyr Tudful (Chwarter Dysgu Merthyr) a Nantgarw, ac i barhau â'r cysylltiadau â'r grŵp rhanbarthol ac ymchwilio i ddarparwyr newydd.

Mae dewisiadau ac anghenion disgyblion yn cael eu casglu gan ysgolion drwy ddefnyddio holiaduron a gwybodaeth o arolygon gyrfaoedd a llais y disgybl. Mae'r wybodaeth yma'n cyfateb i'r ddarpariaeth bresennol mewn ysgolion gan y grŵp consortiwm ac yn cael ei chytuno gyda'r awdurdod ym mis Tachwedd a mis Mawrth, yn unol â pholisi cynllunio Llywodraeth Cymru. Bydd unrhyw ddarpariaeth newydd sy'n ofynnol yn cael ei hystyried o fewn y consortiwm, ochr yn ochr â Gwybodaeth am y Farchnad Lafur (LMI) a gwybodaeth am y camau nesaf o ran ysgolion/ addysg, a lle bo partneriaethau priodol yn cael eu sefydlu gyda Choleg Y Cymoedd, Coleg Pen-y-bont ar Ogwr, Coleg Merthyr a Phartneriaid Dysgu Seiliedig ar Waith. (WBLP). Mae cytundebau lefel gwasanaeth (SLA) yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau ansawdd ac yn cael eu monitro gan ysgolion. Mae'r system yng nghanol cael ei newid ar hyn o bryd gyda Gyrfa Cymru'n newid ei rôl a Llywodraeth Cymru yn gwella systemau Gwybodaeth am y Farchnad Llafur. Mae protocolau rhannu gwybodaeth a dibynadwyedd Gwybodaeth am y Farchnad Lafur yn peri rhai heriau.

Mae rhai trafodaethau wedi cael eu cynnal rhwng y coleg a phenaethiaid ysgol yn RhCT sy'n ystyried cydweithio mewn nifer o feysydd, gan gynnwys adnoddau rhannu staff a gweithio gyda'i gilydd ar gyrsiau megis Mathemateg a Gofal Plant ar gyfer y bobl ifainc hynny sydd angen ail-sefyll eu TGAU.

Mae rhai ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg wedi manteisio ar gyrsiau dydd a gafodd eu cynnig gan Goleg y Cymoedd yn ystod 2015/16, ond mae'r arian yma wedi cael ei dorri ac, felly, mae'n anodd cynllunio heb adnoddau. Mae trafodaethau yn mynd rhagddyn nhw gyda'r ysgolion yma i weld a all hyn barhau.

Yn rhan o'r broses adolygu a diwygio'r cwricwlwm ôl-14, bydd y grŵp consortiwm yn casglu data yn ganolog a fydd yn cynnwys: cyrhaeddiad, dadansoddiad o werth ychwanegol, cyfraddau cadw a chwblhau myfyrwyr. Mae'r wybodaeth yma'n cael ei darparu gan swyddogion yr Awdurdod sy'n bresennol yng nghyfarfodydd cynllunio'r consortiwm. Mae'r ystadegau cytunedig

yma'n ffurfio rhan o galendr prosesu data cynlluniedig yr Awdurdod ac yn cael eu bwydo i mewn i asesiadau ansawdd. Yn ei dro, mae hyn yn cael ei ddefnyddio i lywio cynllunio ar lefel ysgol.

Dyma rai o'r targedau sy'n benodol i'r gwasanaethau

Codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd a'r manteision sydd ar gael i bobl ifainc ddwyieithog	Ymchwilio i adnodd gwybodaeth ar gyfer pobl ifainc, a'i greu, sy'n rhoi gwybod am fanteision a chyfleoedd addysg bellach a chyflogaeth cyfrwng Cymraeg. Bydd angen i hyn gael ei greu gyda phobl ifainc. Paratoi adroddiad crynhoi sy'n rhoi tystiolaeth o ganfyddiadau'r ymchwil sy'n amlygu'r adnodd priodol i'w ddefnyddio i rannu'r wybodaeth yma â phobl ifainc. Hyrwyddo'r adnodd gwybodaeth ymhlith pobl ifainc mewn ysgolion/colegau/clybiau/achlysuron yn y gymuned ac ar wefannau a diwrnodau gyrfa.	Rhagfyr 2017 Mawrth 2018 Ebrill 2018	Menter Iaith Menter Iaith – 16 oed a hŷn Yr Urdd – o dan 16 oed Menter Iaith Yr Urdd YEPS
	Nodi partneriaid/sefydliadau a all gyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth iaith pwrpasol i bobl ifainc i bwysleisio gwerth meddu ar y sgil o siarad Cymraeg. Cydlynu a monitro cyflwyno'r sesiynau yma mewn ysgolion, colegau a lleoliadau yn y gymuned. Gwerthuso effeithiolrwydd y sesiynau yma drwy holiaduron ac arolygon, a pharatoi adroddiad.	Rhagfyr 2017 Ionawr – Mawrth 2018 Ionawr - Mawrth 2018	Menter Iaith a'r Urdd Yr Urdd Yr Urdd

	Trefnu amserlen o ddigwyddiadau ar gyfer myfyrwyr chweched dosbarth a choleg gan ddarparu cyfleoedd iddyn nhw gymdeithasu yn Gymraeg. Hyrwyddo'r digwyddiadau. Cofnodi nifer y bobl ifainc sy'n dod i'r digwyddiadau a'u gwerthuso drwy ddefnyddio holiaduron ac arolygon.	Rhagfyr 2017 Ionawr 2018 Ionawr 2018 ymlaen	Gweithgor y Gymraeg / ysgolion / colegau / fforymau pobl ifainc – Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid, Menter Iaith a'r Urdd Fforymau pobl ifainc – Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid, Menter iaith a'r Urdd Fforymau pobl ifainc – Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid, Menter iaith a'r Urdd
	Cyflwyno 'Cymraeg Bob Dydd' i annog pobl ifainc sy'n astudio'r Gymraeg yn ail iaith i ymgymryd â chyrsiau pellach er mwyn annog defnyddio'r Gymraeg y tu allan i fywyd ysgol Cofnodi nifer y bobl ifainc sy'n dod i'r digwyddiadau a'u gwerthuso drwy ddefnyddio holiaduron ac arolygon. Cynnal digwyddiadau cymdeithasol Cymraeg i bobl ifainc, gan gynnwys cyfleoedd preswyl, eisteddfodau, chwaraeon ac achredu.	Mawrth 2018 Mawrth 2018	Yr Urdd Yr Urdd

Risgiau i'w rheoli/hamlygu ***Dyma'r pethau a fydd yn effeithio ar allu'r maes gwasanaeth / y sefydliad partner i gyflawni'r Deilliant uchod, neu a all effeithio arno.***		**Camau i liniaru'r risg (os nad yw wedi'i gynnwys uchod)** ***Nodwch: Rhaid bod gyda chi gamau i reoli'r risgiau sydd wedi'u nodi. Gall y rhain gael eu croesgyfeirio i'r camau / cerrig milltir uchod.***
1	Cyllid	Byddwn ni'n ymdrin â hyn yn flynyddol
2	Gwybodaeth Rheoli – cofnodi gwybodaeth os oes angen	Ymchwilio i ddefnyddio adnoddau gwybodaeth rheoli o fewn yr Awdurdod Lleol i gofnodi'r ymgysylltu

Deilliant 5: Mwy o fyfyrwyr sydd â sgiliau uwch yn y Gymraeg

Rhowch eich sefyllfa bresennol a'ch targedau o ran canran y disgyblion sy'n cyrraedd graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4.

Sefyllfa Bresennol	2016/17	2017/2018	2018/2019	2019/2020
DATA DROS DRO Blwyddyn Academaidd 2015/2016: 74.27% (nifer=358; cyfanswm=484)	*380*	*404*	*430*	*500*

Y rhesymeg ar gyfer y targedau:
Mae'r targedau yn cael eu gosod yn unol â nifer bresennol y disgyblion sydd yn y grwpiau blwyddyn iau, ond maen nhw'n uchelgeisiol o ran y lefelau o gyrhaeddiad a chadw.

Rhestrwch eich pedwar prif amcan i gyflawni'r deilliant yma (rhestrwch eich amcanion ar ffurf pwyntiau bwled gan gyfeirio at atodiad 1 ar gyfer y data bydd angen i chi'u cynnwys ar gyfer y deilliant yma).

AMCANION:

1. *Sicrhau bod y Cynllun a Strategaeth Hyrwyddo Iaith Gymraeg 2016-21 y Cyngor yn cydweithio'n strategol er mwyn datblygu'r iaith o fewn lleoliadau ysgol a'r tu allan iddyn nhw.*
2. *Gweithio gydag ysgolion, darparwyr addysg bellach a sefydliadau addysg uwch i hysbysu plant a phobl ifainc am fanteision bod yn ddwyieithog yng nghyd-destun dilyniant gyrfaol; annog pobl ifainc i ymgymryd â chyrsiau galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg a helpu i greu cyfleoedd prentisiaeth er mwyn i bobl ifainc gael defnyddio'u sgiliau iaith yn y gweithle.*
3. *Cynyddu nifer y gweithgareddau cymdeithasol sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg drwy, er enghraifft, sefydlu rhwydwaith o glybiau yn y gymuned sy'n darparu gweithgareddau chwaraeon a hamdden Cymraeg eu hiaith.*
4. *Mae'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid, y Fenter Iaith a'r Urdd, a grwpiau plant a phobl ifainc eraill yn mynd i ddatblygu strategaeth ar y cyd erbyn mis Ebrill 2017 fydd yn galluogi'r Gymraeg i ddod yn iaith gweithgareddau cymdeithasol a hamdden, gan greu cyfleoedd i blant a phobl ifainc i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol a chryfhau'r cyswllt rhwng iaith addysg ac iaith y gymuned.*
5. *Ceisio cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg/ddwyieithog yng Ngholeg y Cymoedd, yn unol ag arweiniad Llywodraeth Cymru ('Trefniadau Cynllunio ac Adrodd ôl-16 oed ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach').*
6. *Gan weithio mewn partneriaeth, ymchwilio i adnodd (a'i ddatblygu) fydd yn helpu i ddarparu gwybodaeth ynglŷn â chyfleoedd ar gyfer pobl ifainc o ran prentisiaethau a chyfleoedd cyflogaeth sy'n gofyn am sgiliau iaith Gymraeg.*

Datganiad Ategol:

Ystyriwch sut mae disgyblion/myfyrwyr yn cael eu paratoi ar gyfer y gweithle ac unrhyw oblygiadau sy'n deillio o ddatblygu economaidd a chymuned a'r effeithiau y gall y ddau

yma'u cael ar gynllunio a sgiliau gweithlu. Mae'r datblygiadau yma'n cynnwys, er enghraifft, y gwaith niwclear arfaethedig newydd ar Ynys Môn, Wylfa Newydd, y carchar newydd yn Wrecsam a'r prosiect Morlyn Llanw yn Abertawe, er enghraifft.

Nodwch yn fras y cyfleoedd i ddisgyblion i ddefnyddio ac ymarfer eu sgiliau iaith Gymraeg mewn lleoliadau ffurfiol ac anffurfiol mewn partneriaeth â Gwasanaethau Ieuenctid a rhanddeiliaid eraill yn y gymuned. Mae'r Fforwm yn chwarae rhan bwysig yn y maes yma ond yn galw ar is-grwpiau eraill neu'n cydweithio â'r Urdd, Ffermwyr Ifainc, Menter Iaith a phartneriaid cymuned eraill.

Wrth ddeall cyd-destun y deilliant yma, cafodd hi ei chydnabod y gall y gwasanaethau fod yn fwy integredig a chydweithrediadol oherwydd bod cyfleoedd i gyflawni rhagor mewn partneriaeth.

Mae hi wedi cael ei chydnabod gan Grŵp Strategol y Cynllun yn Rhondda Cynon Taf ei bod hi'n flaenoriaeth i weithio gydag ysgolion, darparwyr addysg bellach a sefydliadau addysg uwch i hysbysu plant a phobl ifainc am fanteision bod yn ddwyieithog yng nghyd-destun dilyniant gyrfaol; annog pobl ifainc i ymgymryd â chyrsiau galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg a helpu i greu cyfleoedd prentisiaeth er mwyn i bobl ifainc gael defnyddio'u sgiliau iaith yn y gweithle.

Yn benodol, mae heriau parhaus o ran recriwtio a chadw staff mewn darpariaeth blynyddoedd cynnar (gan gynnwys Dechrau'n Deg); mewn addysg gynradd ac uwchradd ac mewn swyddi cyffredinol sy'n delio â chwsmeriaid a'r gymuned yn uniongyrchol. Os yw sefydliadau yn y Fwrdeistref Sirol yn ceisio cynllunio ar gyfer y tymor hir, bydd model cyson ar gyfer disgyblion blwyddyn 8, 9 a 10, sy'n darparu gwybodaeth am ddysgu a chyfleoedd gwaith gan ddefnyddio'u sgiliau iaith Gymraeg, o fantais. Mae rhai sefydliadau yn ceisio unioni hyn; er enghraifft, bydd y Mudiad Meithrin yn trafod cefnogi disgyblion sy'n ystyried cyrsiau gofal plant i wneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg gyda staff ysgol uwchradd. Yn ogystal â hynny, darparodd Coleg y Cymoedd ddigwyddiad i fyfyrwyr yn ddiweddar lle roedden nhw'n gallu cwrdd â chyflogwyr oedd yn ceisio recriwtio pobl sydd â sgiliau iaith Gymraeg. Byddai dull mwy cydgysylltiedig o weithredu'r model yma yn galluogi gwireddu rhagor o gyfleoedd a dylid ymchwilio i adnodd a fyddai'n galluogi pobl ifainc i gyrraedd yr wybodaeth yma'n hawdd.

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyllid i gefnogi cyflogwyr i anfon eu gweithwyr ar gyrsiau iaith Gymraeg trwy 'Cymraeg i Oedolion'. Gallai hyn gael ei ddefnyddio i ymgysylltu â busnes sector preifat i annog ei weithwyr a'i gwsmeriaid i siarad Cymraeg, a thrwy hynny, gynyddu'r galw am bobl ifainc â sgiliau iaith Gymraeg i weithio i'r sefydliad hwnnw gan gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned.

O ran y ddarpariaeth bresennol, ar hyn o bryd, mae Coleg y Cymoedd yn dilyn y Cynllun Datblygu ar gyfer 2014-17, felly, mae cyfleoedd ar gyfer cynllunio tymor hir yn gyfyngedig. Un o flaenoriaethau cyfredol y coleg Addysg Bellach yw cynyddu cyrhaeddiad a chynnwys y cyrsiau Gwasanaeth Cwsmeriaid cyfrwng Cymraeg *'Yr Iaith ar Waith'.* Mae'r gwaith bellach ar ei drydydd cam ac yn cynnwys cyrsiau Gofal Plant, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Arlwyo, Busnes a Thwristiaeth, y Diwydiannau Creadigol a Mecaneg/Adeiladu. Yn ystod 2015/16, dilynodd 355 o fyfyrwyr y cyrsiau yma ac roedd 341 yn llwyddiannus (96%). Mae'r Coleg wedi dechrau trafodaethau cychwynnol gyda rhai ysgolion cyfrwng Cymraeg i drafod y potensial o gyflwyno cyrsiau cyfrwng Cymraeg/dwyieithog eraill ar y cyd - bydd cyfarfodydd cynllunio yn cael eu cynnal yn nhymor y Gwanwyn.

Yn ogystal â hynny, mae unedau ar draws y rhaglen cyrsiau craidd sydd yn dod yn ddwyieithog, e.e. Busnes yn 2016/17, er mwyn rhoi gwir ddewis i siaradwyr Cymraeg sydd efallai'n dymuno dilyn eu hastudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rhaid i bob myfyriwr ymgymryd â sesiwn sefydlu wrth gyrraedd Coleg y Cymoedd ac mae'r Adran Gymraeg yn sicrhau bod yr wybodaeth ganlynol yn cael ei rhoi:

- Mae gan fyfyrwyr yr hawl i gyflwyno gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg, hyd yn oed os nad yw eu tiwtor yn siaradwr Cymraeg (mae hyn yn dibynnu ar reoliadau'r corff arholi).
- Gall myfyrwyr ofyn am nodiadau ac asesiadau yn Gymraeg.
- Mae llyfrynnau dwyieithog ar gael sy'n rhoi geirfa a chyfieithiadau o dermau (e.e. termau mathemategol).
- Mae cyfleoedd iddyn nhw wella'u sgiliau iaith mewn modd anffurfiol yn ystod gweithgareddau amrywiol e.e. boreau coffi; gweld rhaglenni iaith Gymraeg yn cael eu recordio; gweithgareddau'r Urdd ac achlysuron yn ystod yr wythnos Gymraeg.

- **Sut byddwch chi'n gwella safonau llythrennedd iaith Gymraeg;**

- Yn ogystal â gweithgaredd ysgol penodol, mae Swyddogion Ymgysylltu o'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid yn cyflwyno unedau Agored Cymru ym mhob un o'r pedair ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg – Lefel 2 sydd gyfwerth â 2 TGAU (Gradd A-C):
    - Ysgol Gyfun Garth Olwg: Addysg sy'n gysylltiedig â gwaith (lefel 2) 2015 a 2016;
    - Y Cymer: Addysg Bersonol a Chymdeithasol (lefel 2) 2015 a 2016;
    - Ysgol Gyfun Rhyd-y-waun: Addysg Bersonol a Chymdeithasol (Lefel 2) 2016;
    - Ysgol Gyfun Llanhari: Unedau annibynnol ar gyfer Addysg Bersonol a Chymdeithasol - Adeiladu hyder 2016.

Mae'r Swyddogion Ymgysylltu Ieuenctid yn cynnig cymorth mentora i bobl ifainc sy'n tangyflawni ym mhob un o'r pedair ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg, i sicrhau eu bod nhw'n cyrraedd eu targedau disgwyliedig ac mae'r Swyddogion Ymgysylltu a Dilyniant yn cynnig cymorth mentora i bobl ifainc 'Addysg heblaw yn yr ysgol' (EOTAS) gan ganolbwyntio ar eu cefnogi gydag Unedau annibynnol Agored Cymru ac unrhyw faterion/pryderon lles eraill.

- **Pa weithredoedd, datblygiadau a/neu fentrau sy'n cael eu rhoi ar waith neu'u cynllunio er mwyn galluogi i'r awdurdod fwrw'r targedau yma;**

Ym mhob ysgol uwchradd Gymraeg, mae Swyddog Ymgysylltu Ieuenctid a Swyddog 5x60 sy'n siarad Cymraeg. Maen nhw'n darparu chwaraeon a gweithgareddau corfforol drwy gyfrwng y Gymraeg gan normaleiddio'r iaith ac annog ei defnydd y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Roedd siarad Cymraeg yn sgil hanfodol ar gyfer y swyddi yma ac oherwydd hynny, cafodd y cyfweliadau eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg.

Hefyd, mae gwaith parhaus gyda'r Gwasanaethau Hamdden i ddarparu gweithgareddau hamdden (e.e. nofio) drwy gyfrwng y Gymraeg.

- **Beth yw'ch strategaethau i barhau i wella ansawdd yr holl ddarpariaeth iaith Gymraeg; ac**
- **Sut byddwch chi'n cynyddu cyfleoedd i blant a phobl ifainc i ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol yn unol â fframwaith cenedlaethol Llywodraeth Cymru (i'w rannu gydag awdurdodau lleol Medi 2016). Dylai hyn gynnwys mapio anghenion plant a phobl ifainc mewn cydweithrediad â'r gwasanaethau ieuenctid a rhanddeiliaid allweddol.**

Er bod canlyniadau cyfrifiad yn dangos bod Rhondda Cynon Taf wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y plant a phobl ifainc sy'n gallu siarad Cymraeg dros y 30 mlynedd diwethaf, mae angen trin y ffigurau yma gyda gofal, oherwydd ei bod hi'n ymddangos bod tua hanner o'r rhain yn ddysgwyr ail iaith sy'n annhebygol o gadw eu sgiliau iaith yn oedolion. Mae data Cyfrifiad diweddar hefyd wedi dangos diffyg cysondeb yn y ffigurau rhwng 2001 a 2011, gan awgrymu

bod plant a phobl ifainc a nododd yn 2001 eu bod nhw â sgiliau iaith Gymraeg wedi colli'r rhain erbyn 2011.

Yn ogystal â disgyblion ail iaith, mae'r her o gynnal sgiliau iaith yn wir hefyd am y rheiny a gafodd addysg Gymraeg ac a adawodd yr ysgol gyda lefel uchel o ruglder. Y realiti yw bod yr ysgol yn darparu un o'r cyfleoedd prin i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer plant sy'n siarad Cymraeg ond sydd â rhieni/gwarcheidwaid di-Gymraeg. O ganlyniad, mae tystiolaeth yn dangos bod y diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn arwain at ddiffyg hyder ac erydiad sgiliau iaith, ac mae'r ysgol yn ffurfioli'r iaith hefyd.

Mae'n amlwg felly nad yw lleoliad yr ysgol ar ei ben ei hun yn ddigon; mae'r plentyn neu'r person ifanc angen cael ei gefnogi gartref (os yw'n bosibl) a'i annog i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol ehangach drwy gyfrwng y Gymraeg i gadw rhuglder yn yr iaith. Hefyd, mae tystiolaeth sy'n dangos bod cysylltiad agos rhwng yr iaith cyfathrebu â ffrindiau a'r iaith mae'r plentyn neu'r person ifanc yn ei siarad, a bod hynny hefyd yn dylanwadu ar ei agwedd tuag at y naill iaith neu'r llall, neu'r ddwy iaith.

Mae nifer o sefydliadau yn Rhondda Cynon Taf wedi gweithio gyda'i gilydd i ddarparu cyfleoedd i blant a phobl ifainc i ddefnyddio'r iaith yn fwy anffurfiol mewn lleoliadau cymuned a meysydd cymdeithasol, megis:

- Mae'r Urdd yn cynnwys 4,000 o aelodau, yn blant a phobl ifainc, ar draws yr ardal ac mae dros 15 o weithgareddau cymuned. Mae'r cyfleoedd sy'n cael eu darparu ar gyfer gwersylla, cymryd rhan mewn Eisteddfodau a chystadlaethau, yn datblygu hyder a sgiliau yn y Gymraeg.
- Mae'r Urdd yn gweithio gyda 58% o'r ysgolion a byddai'n dda gyda hi weithio gyda'r Gyfarwyddiaeth Addysg i gynyddu'r ffigur yma.
- Mae'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid (YEPS) yn cynnig 'gweithgareddau cadarnhaol' 5 diwrnod yr wythnos, 3:00-5:00pm drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd rhai gweithgareddau'n darparu cyfle i ddatblygu medrau llythrennedd Cymraeg pobl ifainc megis clwb gwaith cartref a sesiynau Technoleg Gwybodaeth.
- Mae'r Gwasanaeth yn cynnig 'darpariaeth estynedig' 2 noson yr wythnos trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae darpariaeth estynedig yn cynnwys y 4 maes:
    - Maes 1: Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant
    - Maes 2: Cyngor ac Arweiniad
    - Maes 3: Cyfranogi ac Ymgynghori
    - Maes 4: Cyfleoedd hamdden, chwaraeon a diwylliant
- Mae gan y gwasanaeth Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Menter Iaith, gyda'r ddealltwriaeth y bydd y Fenter yn arwain ar y gwaith datblygu fforymau pobl ifainc a fydd yn canolbwyntio ar wybodaeth, cyngor ac arweiniad.

Yn ôl gwaith ymchwil diweddar gan y Fenter mewn perthynas â rhaglenni 'Trechu Tlodi' y Cyngor, ymddengys fod awydd gan y tair rhaglen (Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, a Chymunedau yn Gyntaf) i gefnogi'r Gymraeg a bodloni gofynion Safonau'r Gymraeg. Serch hynny, cydnabydda rhai o'r rhain y waelodlin isel gychwynnol sydd gyda nhw mewn perthynas â darparu gwasanaeth dwyieithog, gan bennu'r lefel amrywiol o fedrau Cymraeg sydd gyda'u staff.

Mae angen parhau â'r archwiliad o fedrau Cymraeg staff a chanolbwyntio ar yr ardaloedd hynny lle mae'r Gymraeg ar ei chryfaf er mwyn ychwanegu at wasanaeth sydd ar gael yn y gymuned ar gyfer plant, pobl ifainc, a'u teuluoedd.

Mae rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wedi paratoi cynllun gweithredu'n barod ar gyfer bwrw ymlaen â'r argymhellion yn yr adroddiad diweddar a gomisiynodd y Fenter. I hyrwyddo'r Gymraeg, mae'r aelodau i gyd o staff Cymunedau yn Gyntaf wedi cael hyfforddiant 'derbynfa'.

O blith yr wyth clwstwr yn RhCT, mae gan chwech ohonyn nhw aelod o staff sy'n medru'r Gymraeg neu fod rhywun yn mynd i ddosbarthiadau Cymraeg yn y Gweithle.

Mae Rheolwr o un o glystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn cadeirio'r Grŵp Addysg yn y Gymuned i Oedolion, Cymunedau yn Gyntaf. Mae Cydlynydd Cymraeg i Oedolion Prifysgol De Cymru hefyd yn rhan o'r grŵp. Mae Coleg y Cymoedd a'r sector gwirfoddol hefyd yn rhan ohono. Yn ogystal â'r dosbarthiadau Cymraeg yn y Gymuned ar draws y clystyrau, mae Cymunedau yn Gyntaf yn ymrwymo i weithio gyda'n cydweithiwr yn y byd addysg i hybu'r iaith. Yn ddiweddar, mae Partneriaeth Fern (partner sector gwirfoddol Cymunedau yn Gyntaf) wedi cael ei chomisiynu i gynnal cyfres o sesiynau bore coffi yn gynllun arbrofol yng Nghwm Rhondda Fach i hybu'r defnydd o'r Gymraeg mewn amgylcheddau anffurfiol yn y gymuned. Er mwyn mesur effaith y prosiect, bydd Cymunedau yn Gyntaf yn defnyddio mesur ar sail deilliannau i gyfleu effeithiau'r cynllun arbrofol o ran gwella'r ffordd y gall pobl fanteisio ar ddarpariaeth Gymraeg ar draws y clwstwr. CD5 – Gwella Sgiliau Bywyd Oedolion RCT.PM 2.0 Nifer y bobl sy'n cael cymorth i symud ymlaen i Addysg Bellach, Addysg Uwch neu hyfforddiant.

Mae rhai llyfrgelloedd yn Rhondda Cynon Taf hefyd yn hwyluso grwpiau darllen Cymraeg a boreau coffi yn ogystal â dosbarthiadau Cymraeg a dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg.

Yn unol ag amcanion y deilliant yma, mae rhagor o gamau datblygu yn eu lle dan ofal Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid y Cyngor, megis:

- Mae'r Gwasanaeth yn datblygu gweithgor i bennu darpariaeth Gymraeg yn ystod amseroedd allgyrsiol ac i ofalu bod bylchau/anghenion yn cael sylw, lle bo'n bosibl. Bydd yr Urdd a'r Fenter yn rhan o'r gweithgor. E.e. Cymwysterau hyfforddi chwaraeon/CSCS (diwydiant adeiladu) trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Datblygu sesiwn 'darpariaeth estynedig' Cymraeg arall yn ardal Taf-elái. Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda'r Urdd a'r Fenter i fynd â'r maen i'r wal yn hyn o beth. Yn dilyn hyn, mae modd i'r gwasanaeth archwilio'r posibilrwydd o ddarpariaeth estynedig ychwanegol yng Nghwm Rhondda a Chwm Cynon.
- Y gobaith yw bydd darpariaeth y Gwasanaeth yn yr ysgolion Cymraeg yn cael ei chynnal trwy gyfrwng y Gymraeg erbyn Ionawr 2017. Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda'r Adran Materion Caffael tuag at ddefnyddio System Brynu Ddeinamig (yn hytrach na Fframwaith) a fyddai'n rhoi'r modd i'r Gwasanaeth ychwanegu darparwyr newydd at y system yn ôl y gofyn. Caiff darparwyr cyfrwng Cymraeg wahoddiad i fod yn rhan o'r broses gynnig ar gyfer hyn.
- Gweithio gyda'r Urdd i gynnig cymhwyster hyfforddi chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg; monitro ac olrhain pobl ifainc sy'n cwblhau'r cyrsiau yma yn rhan o'u horiau gwirfoddoli ac yn cynnig oriau hyfforddi achlysurol trwy'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid/ChwaraeonRhCT i gynyddu nifer yr hyfforddwyr Cymraeg.
- Defnyddio'r Gymraeg mewn darpariaeth sy'n cael ei chynnal yn yr ysgolion hynny sydd ddim yn gyfrwng Cymraeg er mwyn hybu'r defnydd ohoni ac i fod yn gefn i bobl ifanc i fagu'u hyder.

Gweithredu'r rhaglen genedlaethol (Siartr y Gymraeg a phrosiect Cefnogi Arferion Pobl Ifainc) yn eich ysgolion.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn RhCT yn cymryd rhan yn y Siarter Iaith ac yn gweithio tuag at y Wobr Efydd. Mae'r ysgolion wedi lansio'u gwaith yn llwyddiannus drwy wahodd pobl enwog i gyflwyno gweithdai i ddisgyblion a hefyd drwy sicrhau bod rhieni â rhan yn y broses a'u bod nhw'n gwybod beth sydd ar gael i gynorthwyo disgyblion gartref.

Mae pob ysgol gyfun cyfrwng Cymraeg yn cymryd rhan yn y Prosiect Arferion Pobl Ifainc. Mae eu prosiectau yn cynnwys cynorthwyo disgyblion iau i ddefnyddio'r iaith, cydnabod yr iaith a thrwy ymchwilio i seicoleg iaith.

Mae targedau sy'n benodol i'r gwasanaeth yn cynnwys y canlynol:

Cynyddu nifer y gweithgareddau cymdeithasol Cymraeg sydd ar gael	Sefydlu Gweithgor y Gymraeg a fydd yn datblygu strategaeth ar y cyd erbyn Medi 2017, sy'n rhoi'r modd i'r Gymraeg ddod yn iaith gweithgareddau cymdeithasol a hamdden. Cynnal cyfarfodydd Gweithgor y Gymraeg bob tri mis gydag agenda sydd wedi'i phennu ymlaen llaw a chofnodion. Paratoi cynllun gweithredu i gyd-fynd â'r strategaeth i'w ddiweddaru bob tri mis yn unol â'r strategaeth.	Medi 2017 Bob tri mis Rhagfyr 2017	Claire Hutcheon (Gweithgor y Gymraeg – Deilliant 5) Claire Hutcheon (Gweithgor y Gymraeg – O5) Claire Hutcheon (Gweithgor y Gymraeg – O5)
	Mapio'r ddarpariaeth bresennol sy'n cael ei chynnig gan awdurdodau lleol a sefydliadau cymuned drwy gyfrwng y Gymraeg, gan nodi bylchau ac amlygu'r ardaloedd mewn angen. Sicrhau bod y ddarpariaeth sy'n cael ei chynnig yn cael ei hysbysebu ar Dewis	Ionawr 2018 Mawrth 2018	Claire Hutcheon (Gweithgor y Gymraeg – O5, a phartneriaid) Claire Hutcheon (Gweithgor y Gymraeg – O5)

	Swyddogion Graddedig RhCT (Kathryn Herbert) i baratoi adroddiad safonau'r Gymraeg sydd yn archwiliad o sgiliau Cymraeg partneriaid y mae'r Cyngor wedi'u comisiynu. Paratoi 'pecyn gwybodaeth' i'w roi i bob sefydliad neu glwb cymuned sydd wedi'i gomisiynu gan y Cyngor. Bydd hwn yn cyfannu adnoddau eraill sydd wedi'u paratoi neu sy'n mynd i gael eu paratoi. Dosbarthu a hyrwyddo'r pecyn gwybodaeth o fewn yr Awdurdod Lleol ac mewn Awdurdodau Lleol eraill. Gwerthuso effeithiolrwydd y pecyn gwybodaeth drwy adborth gan bartneriaid	Hydref 2017 Rhagfyr 2017 Mawrth 2018 Mawrth 2018	Kathryn Herbert (Swyddog Graddedig RhCT)
	Paratoi amserlen o achlysuron cymdeithasol yn y gymuned sy'n targedu pobl ifainc 16 oed a hŷn, a'u hyrwyddo.	Bob 3 mis	Menter Iaith
	Sefydlu cysylltiadau â Fforwm Ieuenctid Sirol RhCT a fforymau ieuenctid eraill mewn perthynas â hyrwyddo'r ddarpariaeth Gymraeg.	Ionawr 2018	Claire Hutcheon/ Einir Siôn
	Gweithio mewn partneriaeth i gydlynu a chynnal rhaglenni gwyliau drwy gyfrwng y Gymraeg.	Ionawr 2018	Claire Hutcheon (Gweithgor y Gymraeg – O5)
	Hyrwyddo gweithgareddau Cymraeg ar wefannau ac ar y cyfryngau cymdeithasol.	Ionawr 2018	Claire Hutcheon (Gweithgor y Gymraeg – O5)

	Ymchwilio i adnodd (a'i ddatblygu) a fydd yn cynorthwyo i ddarparu gwybodaeth ynglŷn â chyfleoedd i bobl ifainc mewn perthynas â phrentisiaethau a chyfleoedd cyflogaeth sy'n gofyn am sgiliau iaith Gymraeg.	Mawrth 2018	Siân Woolson (Gweithgor y Gymraeg – O5)
	Pennu hyrwyddwyr (pobl ifainc ac oedolion) a all ddod i achlysuron yn y gymuned i ymgysylltu â'r cyhoedd a hyrwyddo'r gweithgareddau Cymraeg sydd ar gael yn RhCT.	Mawrth 2018	Claire Hutcheon (Gweithgor y Gymraeg)
	Hyrwyddo a chynorthwyo pobl ifainc i fynd i Eisteddfodau er mwyn cynyddu'r cyfleoedd iddyn nhw gymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg	Yn flynyddol	Bob partner

Deilliant 6: Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) cyfrwng Cymraeg

Rhestrwch eich pedwar prif amcan wrth gyflawni'r deilliant yma (rhestrwch eich amcanion ar ffurf pwyntiau bwled).

AMCANION ar gyfer trafodaeth:
Bydd Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant y Cyngor, ar y cyd ag eraill, yn:

1. *Cynnal dadansoddiad data blynyddol i sefydlu'r galw am gymorth cyfrwng Cymraeg arbenigol ar gyfer plant a chyda nhw Anghenion Dysgu Ychwanegol ac i bennu bylchau yn y ddarpariaeth.*
2. *Cynnal dadansoddiad data blynyddol o ddeilliannau disgyblion i ofalu bod plant mae gyda nhw Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gwneud cynnydd cyffelyb i'r rheiny mewn canolfannau cyfrwng Saesneg.*
3. *Rhoi her a chymorth effeithiol i ysgolion cyfrwng Cymraeg i sicrhau bod darpariaeth o safon dda ar gael i blant a chanddyn nhw Anghenion Dysgu Ychwanegol trwy raglen dreigl o Adolygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol i'w cynnal yn yr ysgol ar y cyd rhwng y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant ac Ymgynghorwyr Her y Consortiwm.*
4. *Archwilio cyfleoedd i gydweithio ar draws y consortiwm trwy Grŵp Arweinwyr Materion Cynhwysiant Consortiwm Canolbarth y De mewn perthynas â chynllunio gweithlu, y cyfle i lenwi bylchau wedi'u pennu mewn darpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg.*
5. *Yn unol ag amcanion yn Neilliant 1, rhoi hyfforddiant blynyddol i staff y rheng flaen, gan gynnwys cydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd Prifysgol, ymwelwyr iechyd, Dechrau'n Deg, Mudiad Meithrin ac eraill, ynglŷn â'r opsiynau ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gyda golwg ar addysg cyfrwng Cymraeg, manteision o fod yn ddwyieithog a'r negeseuon cadarnhaol i rieni.*

Datganiad Ategol:

Mae'r canolbwynt, yma, ar gynyddu capasiti i gynnal darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol briodol trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod pob cam ar hyd llwybr addysg. Yn arbennig, gofynnir i chi nodi sut rydych chi'n mesur a bodloni'r galw am ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol cyfrwng Cymraeg, ac yn gweithio gyda rhieni. Sut rydych chi'n cydweithio ag awdurdodau lleol eraill i gynnal darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol cyfrwng Cymraeg? Trwy'n trafodaethau ni gyda chi, rydyn ni'n gwybod bod cyfleoedd i'w cael i gydweithio'n well i gynnal darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Cofiwch gynnwys y canlynol yn eich ymateb:

- **Yng ngoleuni'ch archwiliad blynyddol mwyaf diweddar o anghenion ychwanegol disgyblion sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg, cymorth ar gyfer pa fath o angen nad yw'r awdurdod yn gallu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg?**
- **Sut mae'r awdurdod yn bwriadu pontio'r bwlch yn nhermau'r anghenion sydd wedi'u pennu a'r cymorth sydd ar gael; a**
- **Nodi amcangyfrif o faint o ddisgyblion nad ydyn nhw'n gallu cael addysg cyfrwng Cymraeg oherwydd nad oes modd i'r awdurdod roi cymorth priodol trwy gyfrwng y Gymraeg**.

Ar hyn o bryd mae staff sy'n medru'r Gymraeg ym mhob elfen o'r Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant (Gwasanaeth Seicoleg Addysg, Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad a Gwasanaeth Cynnal Dysgu). Cafodd y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ei bennu ym mis Awst 2016 yn yr archwiliad mwyaf diweddar. Mae modd i'r disgyblion cyfrwng Cymraeg i gyd mae gyda nhw anghenion dysgu ychwanegol sydd angen cymorth arbenigol gan y Gwasanaethau

Mynediad a Chynhwysiant canolog fanteisio ar gymorth trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cynhaliwyd archwiliad yn ddiweddar (Awst 2016) o ddisgyblion cyfrwng Cymraeg sy'n derbyn cymorth gan y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant ar gyfer anghenion difrifol a chymhleth, yn ogystal â'r rhai sy'n derbyn lefel uchel (15+ awr) o fewnbwn gan Gynorthwy-ydd Cynnal/Cymorth Anghenion Arbennig trwy Gyllid Anghenion Ychwanegol. Roedd yr archwiliad yn dangos nad oes digon o dystiolaeth ar hyn o bryd i sefydlu Dosbarth Cynnal Dysgu arbenigol, cyfrwng Cymraeg. Byddai dim ond 25 o ddisgyblion ag ystod o Anghenion Addysgol Arbennig ar draws Rhondda Cynon Taf o'r Cyfnod Sylfaen i CA3 yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cael lle mewn dosbarthiadau Cynnal Dysgu arbenigol. Byddai 3 disgybl arall o Gyfnodau Allweddol 2 hyd 4 yn bodloni'r meini prawf ar gyfer lle mewn Uned Cyfeirio Disgyblion; dim ond 6 disgybl fyddai'n bodloni meini prawf ar gyfer lle mewn ysgol arbennig.

Mae'r Garfan Anawsterau Difrifol a Chymhleth cyfrwng Cymraeg yn darparu cymorth a chefnogaeth ychwanegol ar gyfer disgyblion AAA/Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn ysgolion Cymraeg. Mae hi'n rhoi cymorth arbenigol ychwanegol i 9 disgybl sydd ag anghenion difrifol a chymhleth o'r Cyfnod Sylfaen i CA3. Mae'r Garfan yn cael ei hariannu'n ganolog. Ar hyn o bryd, mae'r Garfan yn diwallu'r angen sydd wedi'i bennu. Yn achos disgyblion cyfrwng Cymraeg a fyddai'n bodloni'r meini prawf ar gyfer lle arbenigol mewn mathau eraill o Ddosbarthiadau Cynnal/Cymorth Dysgu (e.e. Anhwylder y Sbectrwm Awtistaidd, Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol), mae modd i ysgolion fanteisio ar gymorth a chyngor arbenigol cyfrwng Cymraeg oddi wrth y garfan Mynediad a Chynhwysiant ganolog. Bydd Gwasanaethau Mynediad a Chynhwysiant ar draws Consortiwm Canolbarth y De ar y cyd, trwy gyfrwng cynllun gwaith ei Grŵp Arweinwyr Materion Cynhwysiant sydd newydd ei sefydlu, yn archwilio'r posibilrwydd ar gyfer sefydlu lleoedd arbenigol cyfrwng Cymraeg, megis Dosbarthiadau Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg. Yn ogystal â hynny, mae cam gweithredu penodol yng Nghynllun Busnes Consortiwm Canolbarth y De ar gyfer 2017-18 sy'n ymwneud ag ystyried yr achos i ehangu'r ddarpariaeth yn y sector cyfrwng Cymraeg ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol ar draws ardal Consortiwm Canolbarth y De (Blaenoriaeth Gwella Un; Amcan 1.6). Dim ond yn ei fabandod y mae'r gwaith yma ar hyn o bryd.

Mae Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant Cyngor RhCT yn casglu data ac yn ei archwilio'n drylwyr ar sail deilliannau disgyblion. Dengys Adroddiad Dadansoddiad o Ddata ar gyfer Datblygu Lleferydd ac Iaith 2015/16 i 76% o ddisgyblion cyfrwng Cymraeg sy'n derbyn cymorth ar gyfer Datblygu Lleferydd ac Iaith a 93% o ddisgyblion sy'n derbyn cymorth ar gyfer Anawsterau Lleferydd ac Iaith oddi wrth y Gwasanaeth Cynnal Dysgu fwrw eu targedau a gytunwyd. Mae cynnydd yn debyg i garfanau cymaradwy ysgolion cyfrwng Saesneg.

Caiff data asesu arbenigol i ddisgyblion sy'n manteisio ar gymorth gan y Garfan Anawsterau Difrifol a Chymhleth cyfrwng Cymraeg ei ddadansoddi'n flynyddol, ac mae cynnydd yn debyg i ddisgyblion sy'n cael cymorth mewn Dosbarthiadau Cynnal Dysgu cyfrwng Saesneg ar gyfer Anawsterau Dysgu Cymhleth.

Mae'r Awdurdod Lleol yn dirprwyo £2.7miliwn o Gyllid Anghenion Ychwanegol i ysgolion i roi cymorth ychwanegol i ddisgyblion a chyda nhw Anghenion Dysgu Ychwanegol sylweddol mewn addysg brif ffrwd. Caiff hynny ei wneud yn flynyddol. Yn ystod blwyddyn academaidd 2015-16, cafodd 165 o ddisgyblion a chyda nhw ystod o Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg gymorth ychwanegol trwy Gyllid Anghenion Ychwanegol. Bydd y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant yn gwerthuso effaith Cyllid Anghenion Ychwanegol ar gynnydd disgyblion trwy fap sy'n gwerthuso darpariaeth mewn ysgolion unigol er mwyn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd tebyg i'w cyfoedion yn y ffrwd cyfrwng Saesneg.

Caiff ysgolion hyfforddiant cyfrwng Cymraeg drwy'r Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant, Consortiwm Canolbarth y De, a darparwyr eraill. Bydd y Consortiwm, trwy gyfrwng cynllun

gwaith ei Grŵp Arweinwyr Materion Cynhwysiant, yn archwilio'r cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant i ysgolion, ynghyd â gweithgareddau Datblygu Proffesiynol Parhaus mewn perthynas â chynllunio'r gweithlu yn y dyfodol.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi hwyluso grwpiau ffocws i gael barn y rhieni am y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant. Bydd angen rhagor o waith i gael barn rhieni yn benodol ar ansawdd ac argaeledd darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol cyfrwng Cymraeg gan yr Awdurdod Lleol. Efallai bydd hyn yn cynnwys paratoi holiaduron ar-lein i rieni a/neu drefnu grwpiau ffocws i rieni y mae'u plant a chanddyn nhw Anghenion Dysgu Ychwanegol yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Deilliant 7: Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).

Rhestrwch eich pedwar prif amcan wrth gyflawni'r deilliant yma (rhestrwch eich amcanion ar ffurf pwyntiau bwled).

AMCANION:

1. *Gweithio gydag ysgolion i ddeall pam mae cyn lleied o bobl yn lleol yn manteisio ar Gynllun Sabothol Llywodraeth Cymru/Prifysgol Caerdydd.*
2. *Annog cynorthwywyr dysgu i fanteisio ar gyfleoedd datblygu'r Cynllun Sabothol.*
3. *Gweithio gyda Phrifysgol Caerdydd i ddenu rhagor o athrawon cyfrwng Saesneg i'r cynllun sabothol cyfrwng Cymraeg.*
4. *Ystyried cyflwyno cyrsiau hyfforddi dwys ar gyfer athrawon sy'n fodlon trosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg.*
5. *Targedu staff y Cyngor sydd â medrau Cymraeg yn barod ar gyfer cyrsiau magu hyder i annog defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle a chyda chwsmeriaid.*

Datganiad Ategol:
Dylai ymatebion bennu rôl cynlluniau datblygu'r ysgol ac arolygon o fedrau Cymraeg neu brosesau tebyg eraill i bennu anghenion datblygu'r gweithlu yn y mater yma. Dylai esboniad o sut bydd yr anghenion yma'n cael eu blaenoriaethau gael ei nodi. Hwyrach bydd hyn yn cynnwys cyfleoedd cymorth a datblygu trwy gyfrwng y consortiwm rhanbarthol neu ffynonellau eraill, ond rhaid nodi'n benodol sut bydd y Cynllun Sabothol cyfwng Cymraeg yn cael ei ddefnyddio'n strategol i ddiwallu anghenion ysgolion.

Cofiwch gynnwys y canlynol yn eich ymateb:

- **Beth yw'ch strategaeth ar gyfer sicrhau bod gennych chi niferoedd digonol o athrawon i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg yn eich ysgolion;**
- **Beth yw'ch strategaeth ar gyfer denu penaethiaid ac athrawon Cymraeg;**
- **Beth yw'ch strategaeth ar gyfer cynyddu nifer y cynorthwywyr addysgu yn y sector cyfrwng Cymraeg; a**
- **Sut bydd yr awdurdod lleol yn gofalu bod y Cynllun yn cyfrannu at strategaethau ehangach y Sir a'r Consortiwm mewn perthynas â gwella safonau addysg.**

Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn cyflogi 13,441 o weithwyr. Mae 7,433 ohonyn nhw, sef 55%, yn gweithio mewn ysgolion. Mae'r data isod ynglŷn â nifer y staff sy'n ystyried eu hunain yn rhugl neu'n eithaf rhugl yn y Gymraeg yn gywir, fel roedd hi fis Mehefin 2016:

Nifer y gweithwyr sydd â sgiliau Cymraeg		**Rhugl**	**%**	**Eithaf rhugl**	**%**	**Cyfanswm**	**%**
13,441	Y staff i gyd	897	6%	431	3%	**1,328**	9.9%

7,433	Staff mewn ysgolion	603	7.9%	347	4.5%	**950**	12%
6,008	Staff sydd ddim mewn ysgolion	294	5%	84	1.6%	**378**	6.7%

Mae hyn yn dangos bod medrau Cymraeg gyda 950 o staff sy'n gweithio yn yr ysgolion, er mai bach iawn yw'r nifer sydd wedi manteisio ar Gynllun Sabothol Llywodraeth Cymru, trwy Brifysgol Caerdydd, i wella medrau Cymraeg cynorthwywyr dosbarth ac athrawon. Ers 2013/14, mae 0.12% o gynorthwywyr dosbarth wedi manteisio ar y cynllun, a 0.04% o athrawon RhCT. Mae angen rhagor o waith i ddeall y darlun y tu ôl i'r ffigurau yma.

Mae Consortiwm Canolbarth y De yn darparu cyrsiau sy'n cefnogi'r angen i ddatblygu sgiliau Cymraeg. Maen nhw'n darparu hyfforddiant ar gyfer y rheiny sy'n dechrau dysgu Cymraeg a'r rheiny sydd â sgiliau sylfaenol ond sydd am eu gwella. Yn ystod y flwyddyn academaidd yma, dyma pryd byddan nhw'n cael eu cynnal:

28/9/17
9/11/17
12/11/17
18/1/18
15/3/18

Mae'r Swyddogion Cymraeg Mewn Addysg erbyn hyn yn gweithio'n agos gyda Phrifysgol Caerdydd er mwyn darparu cymorth ar gyfer aelodau o staff pan fyddan nhw'n dychwelyd i'r gwaith. Mae aelod o staff o Lyn-coch yn cymryd rhan yn y cynllun sabothol arbrofol fydd yn cael ei gynnal ar hyd y flwyddyn. Mae'r Swyddogion Cymraeg Mewn Addysg hefyd yn trefnu cymorth i'r ysgolion gan y Brifysgol.

Mae gan Goleg y Cymoedd **Strategaeth Sgiliau Ieithyddol** sy'n cynnwys dwy elfen.

Y gyntaf yw'r **Arolwg Sgiliau Ieithyddol y Staff** sy'n cael ei gynnal bob dwy flynedd. Cafodd yr arolwg diweddaraf ei gynnal ym mis Ionawr 2017 gyda 723 o staff (100%) yn ymateb i holiadur a oedd yn gofyn iddyn nhw asesu eu sgiliau eu hunain o ran siarad, deall, ysgrifennu a darllen Cymraeg. Mae canlyniadau'r arolwg yn adnabod y staff sy'n siarad Cymraeg a lefel eu sgiliau, a'r staff a fyddai'n elwa ar gyfleoedd hyfforddiant wedi'u targedu, er enghraifft, sesiynau methodoleg Sgiliaith, y Cynllun Iaith Gymraeg Sabothol, cyrsiau Cymraeg yn y Gweithle mewnol, ac ati.

Yr ail elfen o'r Strategaeth Sgiliau Ieithyddol yw **Arolygiad Sgiliau** o bob swyddogaeth yn y Coleg lle bydd gofyn i Reolwyr werthuso pob swyddogaeth wrth recriwtio aelodau newydd o staff er mwyn penderfynu a yw'r Gymraeg yn hanfodol neu yn ddymunol ar gyfer y swydd benodol honno.

Mae is-gwmni Mudiad Meithrin, Cam Wrth Gam, yn darparu cyrsiau hyfforddiant i ddisgyblion ysgolion uwchradd ym maes addysg y blynyddoedd cynnar / gofal plant. Mae'n gweithio yn ôl cynllun Cynnydd ar gyfer Llwyddiant Llywodraeth Cymru trwy hyfforddi pobl ym maes gofal plant i ennill diploma Lefel 3 mewn Gofal Plant a Datblygiad Plant.

Fel y nodwyd yn Neilliant 5, mae Llywodraeth Cymru newydd gyhoeddi cymorth ar gyfer busnesau i anfon eu gweithwyr ar gyrsiau Cymraeg trwy sefydliadau 'Cymraeg i Oedolion' – Welsh for Adults. Fe allai hynny gymell rhagor o bobl i ddysgu Cymraeg a gwella'u medrau, gan gynyddu'r Gymraeg yn y gymuned.

Llofnod: …… Dyddiad: …….
(Rhaid cael llofnod Prif Swyddog Addysg yr Awdurdod Lleol)